LLWYDDO'N LLEOL 2050

# YMGARTREFU YN ARFOR

ARFOR

CREU GWAITH - CEFNOGI'R IAITH






# CYNNWYS

Cyflwyniad 04
Adran 1: Beth yw ARFOR? 05
Adran 2: Gwybodaeth gyffredinol 08
Adran 3: Sir Gaerfyrddin 17
Adran 4: Ceredigion 25
Adran 5: Gwynedd 35
Adran 6: Ynys Môn 46

# ARDAL WEITHREDU ARFOR



# CYFLWYNIAD

Mae'r penderfyniad i symud i ardaloedd ARFOR, sef Sir Gâr, Ceredigion, Gwynedd neu Môn yn un cyffrous, ond yn gam a all ymddangos yn heriol ar brydiau. Wrth feddwl am symud i unrhyw le, mae'n naturiol i gwestiynau ynghylch gwaith, tai, gwasanaethau cyhoeddus a bywyd cymdeithasol godi, ac fe all darganfod y wybodaeth sy'n berthnasol i chi fod yn dasg sy'n teimlo fel un enfawr.

Nod y pecyn hwn yw eich cynorthwyo chi i gymryd y camau nesaf tuag at symud yn ôl i ardaloedd ARFOR drwy ddarparu gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd ynghylch rhai o'r meysydd sy'n bwysig i'w hystyried wrth fynd ati i baratoi i symud i ARFOR. Gobeithiwn y gallwn ddarparu gwybodaeth ddefnyddiol, cymorth ymarferol a'r dolenni hanfodol fydd o ddefnydd i chi mewn modd sy'n hawdd ei ddeall, ac sy'n hygyrch a hwylus.

Mae'r pecyn yn canolbwyntio'n bennaf ar ddarparu gwybodaeth ynghylch y pum maes canlynol:

1. **Tai**
2. **Swyddi a chyfleoedd gwaith**
3. **Addysg a gofal plant**
4. **Iechyd a gofal**
5. **Digwyddiadau cymdeithasol a'r iaith Gymraeg**

Mae **Adran 1** yn cyflwyno cefndir rhaglen ARFOR a'r hyn sydd wedi ei gyflawni hyd yma fel rhan o'r cynllun.

Mae **Adran 2** yn darparu gwybodaeth gyffredinol sy'n rhoi trosolwg o'r 5 prif faes, y cymorth sydd ar gael, a'r hyn y dylid cadw mewn cof wrth fynd ati i ystyried symud.

Mae **Adrannau 3, 4, 5** a **6** yn edrych ar siroedd Sir Gâr, Ceredigion, Gwynedd a Môn yn eu tro gan ddarparu'r wybodaeth allweddol i chi ddechrau cynllunio symud.

Mae rhanbarth ARFOR yn un sy'n estyn ar draws ardal eang o Gymru, ac felly mae'n amhosib darparu'r holl wybodaeth sy'n manylu ar bob elfen o fywyd a gwaith yno. Ein nod yn hytrach yw cyflwyno trosolwg o'r hyn sydd ar gael a'ch cyfeirio at y lleoedd ble gallwch ganfod gwybodaeth bellach wrth i chi ddechrau ystyried eich dyfodol yn ARFOR.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, ymholiadau, sylwadau neu os hoffech weld unrhyw wybodaeth bellach yn cael ei chynnwys yn y pecyn yn y dyfodol, cysylltwch â ni drwy **llwyddonlleol@rhaglenarfor.cymru** neu **gwybodaeth@rhaglenarfor.cymru**

# ADRAN 1:
# BETH YW ARFOR?





**Sefydlwyd ARFOR yn wreiddiol yn 2019 fel prosiect i weithio o blaid y Gymraeg yng nghadarnleoedd yr iaith yng ngogledd a gorllewin Cymru. Nod y cynllun yw sicrhau bod ffyniant a buddsoddiad economaidd yn helpu i rymuso cymunedau lle mae canrannau uchel o siaradwyr Cymraeg.**

Dechreuwyd ARFOR 1 yn 2019 yn dilyn y cytundeb cyllideb rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru. Gwelodd cam cyntaf y prosiect fuddsoddiad o £2 filiwn yn cael ei ddarparu i Gynghorau Sir Gâr, Ceredigion, Gwynedd ac Ynys Môn.

Nod y rhaglen oedd dechrau edrych ar ymyraethau economaidd yng nghadarnleoedd y Gymraeg drwy ariannu prosiectau arloesol oedd yn hybu ffyniant yn yr ardaloedd hyn. Darparwyd cymorth ariannol i gefnogi busnesau a sefydliadau, rhoddwyd cefnogaeth mentora i bobl ifanc drwy Llwyddo'n Lleol 2050, rhoddwyd cymorth ariannol i fusnesau allu prynu offer newydd a chefnogwyd grwpiau i sefydlu mentrau cymdeithasol gyda'r nod o warchod eu hadnoddau lleol allweddol.

Derbyniodd 154 o fusnesau gymorth drwy'r rhaglen, crëwyd 238 o swyddi llawn amser ac 89 o swyddi rhan amser gyda 226 o swyddi pellach yn cael eu gwarchod o fewn y rhanbarth o ganlyniad i'r rhaglen yn y cyfnod hyd at fis Mawrth 2021.

Yn dilyn llwyddiant rhan gyntaf y prosiect, ac fel rhan o'r Cytundeb Cydweithio rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru, cyhoeddwyd ym mis Hydref 2022 y byddai rhaglen ARFOR yn derbyn buddsoddiad pellach o £11 miliwn tan ddiwedd mis Mawrth 2025. Roedd sefydlu ARFOR 2 yn cynrychioli ehangu sylweddol ar y prosiect gwreiddiol, gyda'r nod o barhau â'r gwaith dysgu ac arloesi oedd wrth wraidd y cymal cyntaf.

Yn greiddiol i'r gwaith mae 4 amcan strategol:

1. **Creu cyfleodd** i bobl a theuluoedd ifanc o dan 35 mlwydd oed i aros neu ddychwelyd i'w cymunedau cynhenid, gan eu cefnogi i lwyddo yn eu hardaloedd lleol drwy ddilyn mentrau newydd a datblygu gyrfaoedd iddynt gael sicrhau bywoliaeth sy'n cyd-fynd â'u huchelgeisiau.
2. **Creu cymunedau mentrus** o fewn rhanbarth ARFOR drwy gefnogi mentrau busnes a chymunedol sy'n ceisio cadw a chynyddu cyfoeth lleol gan eu hysgogi i fanteisio ar adnoddau, hunaniaeth a nodweddion unigryw eu hardaloedd lleol er mwyn gwneud hyn.
3. **Cynyddu'r budd a geir o weithgarwch** y prosiect drwy sicrhau cydweithio cyson a pharhaus. Yn greiddiol i hyn mae'r egwyddorion o ddysgu drwy wneud ac o rannu arferion da o fewn cymunedau gan ehangu ac ymledu'r arferion hyn i ardaloedd eraill tra hefyd yn sicrhau bod unrhyw ymyraethau'n cael eu teilwra ar gyfer amgylchiadau lleol.
4. **Cryfhau hunaniaeth cymunedau** sydd â dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg o ran canran drwy gefnogi, hybu a hyrwyddo defnydd a gwelededd y Gymraeg yn yr ardaloedd hyn. Elfen hanfodol o hyn yw pwysleisio balchder bro, naws am le a theyrngarwch lleol mewn cymunedau unigol tra hefyd yn helpu i ddangos y nodweddion, yr amodau a'r ffactorau sy'n gyffredin i'r rhanbarth cyfan.

Mae rhaglen ARFOR wedi ei rhannu'n 5 ffrwd gwaith sy'n cael eu cyflenwi gan ddarparwyr unigol drwy gytundeb.

Mae pob ffrwd yn canolbwyntio ar elfen wahanol o wireddu amcanion strategol ARFOR ac yn cynrychioli rhaglenni gwaith ag iddynt ffocws unigol ar ymyraethau penodol i gyflawni hyn:

1. **LLWYDDO'N LLEOL:** Gweithio i godi ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd sy'n bodoli yn ardal ARFOR a helpu i ddatblygu sgiliau pobl ifanc yno.
2. **CYMUNEDAU MENTRUS:** Cronfa i'r Cynghorau Sir allu buddsoddi'n uniongyrchol i sicrhau twf economaidd a bod cyfalaf yn aros a chylchredeg o fewn yr ardal leol.
3. **CRONFA HER:** Rhaglen grantiau sy'n caniatáu i sefydliadau, busnesau a grwpiau o unigolion ddod ynghyd i ddatrys rhai o'r heriau maen nhw'n eu hwynebu'n lleol.
4. **BWRLWM:** Ffrwd hyrwyddo gweithgarwch ARFOR. Gweithio i hysbysu'r cyhoedd am yr hyn sy'n cael ei gyflawni fel rhan o'r rhaglen ac archwilio rhai o'i syniadau craidd.
5. **MONITRO, GWERTHUSO A DYSGU:** Darparu adolygiadau o'r rhaglen yn ei chyfanrwydd ar ffurf adroddiadau, gweithio i ddatblygu seiliau academaidd a pholisi cyhoeddus y cynllun.

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith Llwyddo'n Lleol. Am fwy o wybodaeth ynghylch rhaglen ARFOR a'r gwaith sydd wedi ei gyflawni hyd yma yn rhan o'r prosiect, gallwch ddysgu mwy drwy ddilyn y dolenni isod:

- **Llwyddo'n Lleol**
- **Bwrlwm ARFOR**
- **Gwefan ARFOR**

# ADRAN 2: GWYBODAETH GYFFREDINOL





# TAI

Yr ystyriaeth bennaf wrth feddwl am symud i rywle newydd yw dod o hyd i rywle i fyw. Yma cewch wybodaeth am y cymorth sy'n berthnasol ar draws Cymru gyfan i'ch helpu chi gael tŷ.

## Cymorth i brynu tŷ

Mae'r **dudalen tai ar wefan Llywodraeth Cymru** yn ffynhonnell ddefnyddiol iawn ar gyfer gwybodaeth am dai a chartrefi yng Nghymru. Yno gallwch ganfod y cymorth sydd ar gael i brynu a rhentu tai, a gwirio os ydych yn bodloni'r meini prawf ar gyfer y rhaglenni hyn. Wrth i chi ystyried eich cynlluniau i symud i ARFOR, mae'n werth edrych ar y gwahanol gyfleoedd sydd ar gael a'r cymorth yr ydych yn gymwys i'w dderbyn i chi gael deall pa opsiynau sydd ar gael i chi.

Mae rhaglenni **Cymorth i brynu cartref** Llywodraeth Cymru yn cynnig sawl rhaglen er mwyn cynorthwyo unigolion a theuluoedd i brynu cartref. Drwy'r rhaglenni hyn mae'r llywodraeth yn darparu cymorth ariannol i helpu pobl yng Nghymru i berchnogi eu cartref eu hunan, gyda'r cynlluniau wedi'u teilwra'n benodol i ddarparu cymorth i bobl mewn gwahanol amgylchiadau. Mae'r rhaglenni hyn yn cynnwys:

- **Rhanberchenogaeth – Cymru**

  Cynllun sy'n rhoi'r cyfle i brynu cyfran o gartref a thalu rhent ar y gyfran sy'n weddill.

- **Cymorth i Brynu – Cymru**

  Cynllun sy'n darparu benthyciadau ecwiti a rennir ar gyfer cartrefi hyd at £300,000. Mae'r cynllun hwn ar gyfer pobl sy'n prynu cartref am y tro cyntaf ac yn symud tŷ ond mae rhaid iddynt gael blaendal sy'n 5% o werth yr eiddo.

- **Prynu Cartref – Cymru**

  Cynllun sy'n darparu benthyciadau ecwiti o rhwng 30% a 50% ar gyfer y rheiny sy'n bodloni meini prawf penodol i brynu eiddo.

Mae modd ateb holiadur i weld pa un o'r cynlluniau perchnogi cartref uchod sy'n addas i chi **drwy ddilyn y ddolen hon**.

Ceir mwy o fanylion am sut mae'r rhain yn gweithredu mewn siroedd gwahanol ynghyd a chynlluniau sydd yn bodoli mewn gwahanol siroedd ynghyd â chynlluniau sy'n bodoli mewn siroedd penodol yn yr adrannau unigol.

## Rhentu a thai cymdeithasol

I wneud cais am fathau eraill o lety, gan gynnwys cartrefi a ddarperi gan asiantaethau tai cymdeithasol a thai cyngor, **dilynwch y ddolen hon i wefan Llywodraeth Cymru**.



**Gwnewch eich ymchwil!**

Mae dod o hyd i dŷ i'w brynu neu rentu yn gallu bod yn broses heriol, yn enwedig os ydych yn byw ymhell i ffwrdd. Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwneud eich ymchwil wrth i chi chwilota, gan ddefnyddio'r cyngor sydd ar gael ar y we o ffynonellau dibynadwy. Mae gwefannau fel Money Saving Expert yn gallu bod yn adnodd gwerthfawr iawn – **fel y canllaw hwn am y 50 peth i edrych allan amdano wrth brynu tŷ**.

# SWYDDI A CHYFLEOEDD GWAITH

**Rhan hanfodol o symud yw dod o hyd i waith, mae'r rhan hon yn edrych ar y gwasanaethau sydd ar gael i chi i'ch helpu chi ffeindio'r swydd iawn.**

Mae amrywiaeth o wefannau swyddi sy'n darparu gwybodaeth ynghylch swyddi gwag yng Nghymru. Ynghyd a'r gwefannau sy'n hysbysebu swyddi ledled y DU, mae safleoedd sy'n arbenigo wrth hysbysebu swyddi sydd wedi eu lleoli yng Nghymru ac sy'n aml â'r Gymraeg yn rhan hanfodol neu ddymunol ohonynt. Ymhlith y gwefannau hyn mae:

- Swyddi360
- Lleol Cymru
- Swyddle
- Safle Swyddi
- Darogan Talent

Mae'r gwefannau hyn yn ddefnyddiol iawn os ydych yn awyddus i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg yn y sector cyhoeddus neu'r trydydd sector, ond mae cyfleoedd yn y sector preifat yn cael eu rhestru'n aml hefyd. Cofiwch fod nifer o swyddi bellach yn caniatáu gweithio o bell, neu swyddi hybrid sy'n rhannu amser rhwng y swyddfa a'r cartref, ac felly nid oes o reidrwydd angen i chi gyfyngu eich chwilota i swyddi wedi'u lleoli yn ardaloedd ARFOR yn unig. Mae'r gwefannau hyn yn cael eu diweddaru'n aml, ac mae'n werth cadw golwg cyson arnynt i weld os oes yna swydd sy'n apelio ac yn cyd-fynd â'ch cryfderau yno. Mae nifer o'r gwefannau hyn yn cylchredeg cylchlythyr sydd â gwybodaeth am y swyddi diweddaraf sydd wedi eu rhestru – gall hyn fod yn ffordd dda o gadw golwg ar unrhyw swyddi sydd ar gael.

Am restr ehangach o wefannau swyddi, **dilynwch y ddolen hon i wefan Gyrfa Cymru**.

## Prentisiaethau

Gallwch ganfod trosolwg manwl o faes prentisiaethau **drwy ddilyn y ddolen hon i wefan Llywodraeth Cymru**. I ddysgu mwy am brentisiaethau, y gwahanol fathau sydd ar gael ac ym mhle, dilynwch **y ddolen hon i wefan Gyrfa Cymru**.

Gallwch hefyd ganfod prentisiaeth wag yn eich ardal **drwy ddefnyddio teclyn chwilio Llywodraeth Cymru**.

Ar wefan Gyrfa Cymru, sy'n cael ei rhedeg gan Lywodraeth Cymru, mae canllawiau ar sut i greu CV ac ysgrifennu ceisiadau swydd. Mae adran ar gyfer swyddi i raddedigion a chyngor ar sut i ganfod swyddi sydd heb eu hysbysebu. Mae'r rhain yn adnoddau hynod o ddefnyddiol, felly peidiwch â bod ofn pori drwyddynt!

Os oes gennych ymholiad penodol ynghylch eich gyrfa neu brentisiaeth, gallwch gysylltu â Gyrfa Cymru yn uniongyrchol drwy ffonio 0800 0284844 neu drwy e-bostio post@gyrfacymru.llyw.cymru.

Mae Cynllun Profi, sy'n cael ei redeg gan Llwyddo'n Lleol, yn helpu i ddatblygu a gwella sgiliau byd gwaith a chyflogadwyedd pobl ifanc yn ardaloedd ARFOR. Unwaith i chi gofrestru fel defnyddiwr ar y wefan, mae modd derbyn:

- **Cyngor ar gyfweliadau**
- **Help i adnabod sgiliau byd gwaith**
- **Cyfarwyddyd wrth ddarganfod cyfleoedd byd gwaith**
- **Cymorth wrth greu CV a cheisio am swyddi**

## Cymorth Busnes

**Mae sawl corff sy'n gallu darparu cymorth wrth ddatblygu, sefydlu a thyfu eich busnes yng Nghymru. Os ydych yn rhedeg eich busnes eich hun neu'n ystyried gwneud, gall y dolenni isod fod o gymorth:**

### BUSNES CYMRU

Rhan o Lywodraeth Cymru sy'n darparu cefnogaeth i unigolion ddatblygu a thyfu eu busnesau.

### ANTUR CYMRU

Menter gymdeithasol sy'n helpu busnesau gwledig drwy ddarparu gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth ymarferol.

### MENTERA

Mae Mentera yn darparu cymorth i fusnesau a chymunedau yng Nghymru gan eu hysbrydoli i fod yn fentrus, ac yn eu galluogi i ffynnu.

### MENTER MÔN

Mae Menter Môn yn fenter nid er elw sy'n weithredol ledled Cymru ond sydd â phwyslais ar Ynys Môn a Gwynedd. Mae ganddynt ddiddordeb mewn cryfhau economïau lleol, datblygu a chefnogi pobl, gwella'r amgylchedd a chefnogi diwylliant Cymru.

### CANFYDDWR CYLLID BUSNES CYMRU

Adnodd Busnes Cymru ar gyfer canfod cyfleoedd cyllid ar gyfer eich busnes.

### SYNIADAU MAWR CYMRU

Gwasanaeth Busnes Cymru i bobl ifanc rhwng 18 a 24 oed er mwyn eu helpu iddynt ddatblygu syniadau busnes.

# ADDYSG A GOFAL PLANT

## Ysgolion

Mae modd canfod ysgolion lleol i'r ardal yr ydych yn bwriadu symud iddi drwy ddilyn **y ddolen hon i wefan 'Fy Ysgol Leol' Llywodraeth Cymru**. Gallwch hefyd ddefnyddio'r wefan i ganfod manylion cyswllt ysgolion unigol ynghyd ag adroddiadau Estyn.

## Colegau a Phrifysgolion yn ARFOR

Am restr o golegau yng Nghymru dilynwch y ddolen hon **i wefan Gyrfa Cymru**.

I ganfod gwybodaeth am brifysgolion yn rhanbarth ARFOR a'r cyrsiau maent yn eu cynnig dilynwch y dolenni isod:

- **Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant**
- **Prifysgol Aberystwyth**
- **Prifysgol Bangor**

## Gofal plant

Mae nifer o raglenni ar gael i deuluoedd sydd â phlant ifanc yng Nghymru sy'n rhoi cymorth gyda chostau byw a chostau gofal plant. Gall y ddarpariaeth hon amrywio o ardal i ardal ac mae modd defnyddio'r **Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd lleol** i ganfod gwybodaeth am ofal plant yn eich ardal chi. Ceir mwy o wybodaeth am y sefyllfa ym mhob cyngor sir yn yr adrannau unigol. Dyma drosolwg o'r hyn sydd ar gael ar draws Cymru:

- **Cynnig Gofal Plant Cymru:** Mae Cynnig Gofal Plant Cymru yn darparu hyd at 30 awr o ofal plant am ddim yr wythnos i blant 3 a 4 mlwydd oed yng Nghymru. I ddysgu mwy ac i weld os ydych yn gymwys i wneud cais, **dilynwch y ddolen hon i wefan Llywodraeth Cymru**.
- **Credyd Cynhwysol:** Os ydych yn derbyn Credyd Cynhwysol gallwch hawlio hyd at 85% o gostau gofal plant yn ôl. Gall rhieni sy'n gweithio hefyd dderbyn cymorth tuag at gostau byw. I ddysgu mwy **dilynwch y ddolen hon**.
- **Gofal plant di-dreth:** Gall hyn helpu gyda chostau gofal plant. Darganfyddwch a ydych yn **gymwys i dderbyn cymorth yma**.
- **Cefnogaeth i fyfyrwyr:** Mae modd i fyfyrwyr israddedig dderbyn grant gofal plant. Gallwch fynd i wefan Cyllid Myfyrwyr Cymru i ddysgu mwy **ac i wirio os ydych chi'n gymwys**.
- **Credydau Gofal Plant ar gyfer Oedolion Penodedig:** Gall pobl sydd dros 16 hyd at oedran pensiwn y wladwriaeth wneud cais am Gredydau Yswiriant Gwladol os ydynt yn gofalu am blentyn o dan 12 oed. Gallwch ddysgu mwy **drwy ddilyn y ddolen hon**.
- **Rhaglen Dechrau'n Deg:** Mae rhaglen Dechrau'n Deg yn rhaglen sy'n helpu teuluoedd sydd â phlant o dan 4 mlwydd oed mewn ardaloedd difreintiedig yng Nghymru drwy ddarparu amryw o wasanaethau gofal ac iechyd. Mae eich cymhwysedd yn ddibynnol ar eich cod post. I ddysgu mwy am y rhaglen **dilynwch y ddolen hon**. Gallwch ddysgu mwy am sut mae rhaglen Dechrau'n Deg yn cael ei gweithredu ym mhob un o gynghorau sir ARFOR yn yr adrannau isod.

# IECHYD A GOFAL

Mae modd cael trosolwg o'r gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol sydd ar gael yng Nghymru drwy **ymweld â gwefan Llywodraeth Cymru**. Mae tudalen '**Gwasanaethau yn agos atoch chi**' GIG Cymru yn adnodd hynod ddefnyddiol er mwyn canfod y gwasanaethau sydd ar gael yn eich ardal. Gallwch ei defnyddio i ganfod gwybodaeth am:

- Ddeintyddion
- Fferyllfeydd
- Meddygon teulu
- Ysbytai

Ynghyd â'r ystod eang o wasanaethau eraill y mae'r GIG yn ei gynnig yng Nghymru.

## Cofrestru gyda meddyg teulu

I gofrestru gyda meddyg teulu yng Nghymru mae angen llenwi a dychwelyd ffurflen GMS 1. Mae'r rhain ar gael yn uniongyrchol ar bapur o'r feddygfa yr ydych yn bwriadu ymuno â hi neu drwy ei gwefan. Gallwch ganfod mwy o wybodaeth am y broses **drwy ddilyn y ddolen hon i wefan GIG Cymru**.

## Cofrestru gyda deintydd y GIG

Mae modd cofrestru gyda deintydd y GIG yng Nghymru drwy'r Porth Mynediad Deintyddol. Gallwch ddysgu mwy am hyn **drwy ddilyn y ddolen hon i wefan GIG Cymru**.

## Anabledd Cymru

Anabledd Cymru yw cymdeithas genedlaethol Sefydliadau Pobl Anabl yng Nghymru, sy'n ymdrechu i sicrhau hawliau, cydraddoldeb ac annibyniaeth pobl anabl. Gallwch ddysgu mwy am y **cymorth sydd ar gael i bobl anabl drwy ddilyn y ddolen hon i'r wefan**.

## Dewis Cymru

Mae Dewis Cymru yn gofrestr o'r gwasanaethau lleol a chenedlaethol sydd ar gael yng Nghymru. Os ydych yn chwilio am unrhyw wasanaeth penodol, mae hwn yn lle gwych i ddechrau ac yn adnodd pwerus iawn. Gallwch ddysgu mwy a dechrau edrych am yr hyn sydd ei angen arnoch **drwy ddilyn y ddolen hon**.

## Cyngor ar Bopeth

Drwy **ddilyn y ddolen hon i wefan Cyngor ar Bopeth** *(Citizen's Advice)* gallwch ganfod gwybodaeth a chyngor ynghylch iechyd, budd-daliadau, gwaith, dyled ac arian a nifer o feysydd eraill hefyd.

**Mwy nag iechyd a gofal**

Mae'r gwefannau isod yn darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth am iechyd a gofal ac ynghylch ystod o bynciau eraill.

- Anabledd Cymru
- Dewis Cymru
- Cyngor ar Bopeth

# DIGWYDDIADAU CYMDEITHASOL A'R IAITH GYMRAEG

## Dysgu Cymraeg

Os ydych chi neu rywun ar eich aelwyd eisiau dysgu neu wella eich sgiliau Cymraeg, mae nifer o wasanaethau a chyrsiau ar gael i helpu.

Cyrsiau **Dysgu Cymraeg** yw'r cyrsiau safonol cenedlaethol ar gyfer dysgu'r iaith. Mae cyrsiau ar gael i bob gallu, ac fe allwch ganfod cyrsiau lleol **drwy ddilyn y ddolen hon**. Gallwch ganfod **adnoddau am ddim ar gyfer holl gyrsiau Dysgu Cymraeg yma**.

Ynghyd â chyrsiau ffurfiol sy'n darparu cymwysterau fel rhai Dysgu Cymraeg mae apiau a chyrsiau gan ddarparwyr eraill fel **Say Something in Welsh** neu **Gwrs Cymraeg Duolingo**.

Mae gwefan Lingo 360, sy'n cael ei rhedeg gan Golwg yn darparu erthyglau addas i ddysgwyr **er mwyn eich helpu gyda'ch darllen**.

## Diwylliant a digwyddiadau

Mae cyfoeth o ddigwyddiadau, gwyliau, gigiau, cyngherddau, perfformiadau, sioeau wedi eu rhestru yma, er ceir mwy o wybodaeth am ganolfannau diwylliannol lleol yn yr adrannau unigol. Yr hyn sy'n bwysig yw chwilio a chadw golwg ar yr hyn sy'n digwydd yn lleol i'ch ardal chi – gan ganolbwyntio ar eich diddordebau. Mae papurau bro, grwpiau Facebook a chadw golwg ar y cyfryngau cymdeithasol yn ffyrdd gwych o ddeall yr hyn sy'n digwydd yn eich milltir sgwâr.



## Sut i wybod beth sy'n digwydd? Ambell wefan i helpu:

### Mentrau Iaith

Mae'r **Mentrau Iaith** ledled Cymru yn hynod weithgar wrth drefnu digwyddiadau a gweithgareddau Cymraeg eu hiaith o bob math i bob oedran. O gyrsiau nos i gigiau, mae'n debygol y bydd rhywbeth at ddant pawb. Os ydych chi eisiau cwrdd â phobl a chael hwyl, mae hwn yn lle da i ddechrau. Mae modd canfod calendr o holl ddigwyddiadau'r Mentrau Iaith ar hyd a lled Cymru **drwy ddilyn y ddolen hon**.

### Awni?

Lansiwyd Awni yn Ionawr 2025 fel platfform er mwyn arddangos yr holl gigiau Cymraeg sy'n cael eu cynnal ar hyd a lled Cymru. Gallwch ddefnyddio'r map i bori a darganfod beth sy'n digwydd yn eich ardal chi mewn modd hwylus a hygyrch. Canfyddwch y map a dysgwch fwy ar **wefan Awni** neu dilynwch eu **cyfrif Instagram** am y newyddion diweddaraf.

### Bro360

Mae **gwefan Bro360** yn rhwydwaith o wefannau bro sy'n cael ei rhedeg gan gwmni Golwg. Gan ganolbwyntio ar y gogledd a'r gorllewin, hwn yw'r lle delfrydol i ddysgu mwy am eich ardal os ydych yn symud yn ôl i ARFOR.

### AM

Lansiwyd AM yn 2020 gan gwmni Pyst yn dilyn nawdd gan Lywodraeth Cymru. Mae AM yn blatfform aml gyfrwng sy'n arddangos cynnwys Cymraeg o bob math. Mae'n agored hefyd, sy'n golygu bod modd i unrhyw un sy'n creu'n ddiwylliannol neu'n greadigol i gael sianel. Dysgwch fwy **drwy ymweld â'r wefan**.





# ADRAN 3: SIR GAERFYRDDIN

Os ydych yn dychwelyd i **Sir Gaerfyrddin** neu'n symud yno am y tro cyntaf, mae'n werth ymgyfarwyddo â gwefan **Cyngor Sir Gâr** er mwyn dod i ddeall yr holl wasanaethau a chymorth mae'r Cyngor yn eu darparu.



# TAI

Yn ôl **Mynegai Prisiau Tai Principality**, y prisiau tai cyfartalog yn ôl mathau o eiddo yn Sir Gaerfyrddin yw:

**£329,163** am dŷ ar wahân

**£177,365** am dŷ pâr

**£147,185** am dŷ teras

**£115,600** am fflat

## Premiwm Treth Cyngor ar ail gartrefi

Ym mis Ebrill 2023, **cynyddodd Llywodraeth Cymru'r premiwm uchaf posibl** y gall awdurdodau lleol ei godi ar ail gartrefi i 300%. Mae hyn yn golygu fod gan gynghorau sir y grym i godi tair gwaith yr hyn y mae perchnogion ail gartrefi yn ei dalu mewn treth cyngor na phe baent yn byw yno'n barhaol. Cyn y cam hwn yr uchafswm posib roedd awdurdodau lleol yn gallu ei godi oedd premiwm o 100%.

Cyn hyn, ym mis Mawrth 2023 fe wnaeth Cyngor Sir Gaerfyrddin gyflwyno premiwm o 50% ar ail gartrefi, a ddaeth i rym o Ebrill 2024, gyda'r bwriad o gynyddu hyn i 100% o Ebrill 2025 ymlaen. Gallwch ddysgu mwy am bolisi premiwm Treth Cyngor Sir Gaerfyrddin **drwy ddilyn y ddolen hon i'w gwefan**.


## Y Cynllun Tai Gwag

Mae'r Cynllun Tai Gwag yn rhaglen sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru a'i gweinyddu drwy awdurdodau lleol ym mhob rhan o Gymru i annog perchnogion tai i ddod â thai gwag yn ôl i ddefnydd llawn amser. Mae'r cynllun yn darparu benthyciadau di-log o hyd at £25,000 i berchnogion tai i wella cyflwr ac adnewyddu eu tai fel eu bod yn gallu cael eu defnyddio drwy eu rhentu neu eu gwerthu ymlaen.

Nod y Cyngor yw lleihau'r nifer o gartrefi gwag ar draws y sir i lai na 1,500 erbyn 2026, gan sicrhau fod gan bawb yn y sir dŷ sy'n ateb eu gofynion. Fel rhan o'r gwaith hwn, mae'r Cyngor wedi ffurfio rhestr o'r hyn y maent am ganolbwyntio arno wrth fynd i'r afael â'r broblem o dai gwag sy'n cynnwys y camau canlynol:

- Canolbwyntio ar gartrefi gwag mewn ardaloedd lle mae galw mawr am dai neu yn yr ardaloedd 'deg tref' er mwyn ysgogi adfywio ehangach.
- Targedu cartrefi gwag fydd yn cael eu defnyddio unwaith yn rhagor fel tai fforddiadwy i bobl ar y Gofrestr Dewis Tai a chanolbwyntio'n benodol ar dai gwag yn Ystadau'r Cyngor a gafodd eu gwerthu yn y gorffennol drwy'r cynllun 'hawl i brynu'.
- Hwyluso a chefnogi'r defnydd o unedau preswyl gwag uwchben siopau a busnesau masnachol eraill yng nghanol trefi'r sir.
- Gweithio gyda theuluoedd perchnogion tai gwag sy'n byw mewn cartrefi gofal i reoli'r eiddo ar eu rhan a chynhyrchu incwm iddynt a all dalu'n rhannol am gost eu gofal.
- Ymateb i geisiadau gan y cyhoedd am weithredu ble mae cartrefi gwag yn achosi problemau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn ardaloedd penodol.
- Clustnodi tai gwag sydd mewn cyflwr gwael ac sy'n achosi niwed i'r ardal gyfagos a chymryd camau i adfer y tai hyn.

I ddysgu mwy am y rhaglen, a'r hyn sydd angen ei sicrhau er mwyn bod yn gymwys ar gyfer benthyciad, **dilynwch y ddolen hon i wefan Llywodraeth Cymru**. I ganfod mwy o wybodaeth ynghylch tai gwag yn Sir Gaerfyrddin, dilynwch **y ddolen hon i wefan y Cyngor** neu gallwch ddarllen **Polisi Cartrefi Gwag y Cyngor ar ffurf PDF**.



## Y Cynllun Tai Cymunedol - Rhannu Ecwiti

Mae'r Cynllun Tai Cymunedol yn bolisi cenedlaethol wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru sy'n cael ei weithredu gan bob Cyngor Sir yng Nghymru. Fel ym mhob sir arall, amcan Cynllun Tai Cymunedol Cyngor Sir Caerfyrddin yw cefnogi unigolion a theuluoedd i fod yn berchen ar eu tai eu hunain drwy gynllun rhannu ecwiti gyda'r Cyngor.

Mae'r Cyngor yn darparu amrywiaeth o fenthyciadau a rhaglenni rhannu ecwiti i bobl, sy'n amrywio yn ôl anghenion a chyllid gwahanol unigolion. Nod y cynllun yw cynorthwyo pobl sydd â chynilion cyfyngedig i brynu tŷ y bydd y Cyngor yn berchen ar gyfran ohono hyd nes bod y ddyled i'r Cyngor yn cael ei had-dalu.

Mae modd dysgu mwy am y cynllun a sut mae'n cael ei weithredu yn Sir Gaerfyrddin **drwy ddilyn y ddolen hon**.




### Gwerthwyr tai Caerfyrddin

- Gerald Vaughan
- John Francis
- Morgan & Davies
- Evans Bros
- West Wales Properties
- Clee Tompkinson Francis
- Terry Thomas
- Cymru Estates
- Swift Property Services
- Davies Craddock
- Evans Estates
- Anna Ashton Estate Agents
- Cornerstones Lettings & Property Management
- Peters & Co.
- Calow Evans

### Cymdeithasau tai

- Barcud
- Cymdeithas Tai Caerfyrddin
- Caredig
- Hafod

# SWYDDI A CHYFLEOEDD GWAITH

Mae amrywiaeth helaeth o swyddi mewn nifer o sectorau yn Sir Gaerfyrddin ac mae'n lle gwych i ddechrau a datblygu gyrfa neu sefydlu a thyfu busnes. Yn yr adran hon ceir gwybodaeth am swyddi yn yr ardal a dolenni defnyddiol i chi ddechrau edrych am swydd.

## Adran Swyddi a Gyrfaoedd Cyngor Sir Caerfyrddin

Mae adran **Gweithio yn Sir Gâr** gwefan y Cyngor yn lle da i ddechrau wrth edrych am waith a chymorth i hyfforddi a ffeindio gwaith. Yno gallwch ganfod gwybodaeth am waith gyda'r Cyngor a'r amryw o wasanaethau sydd ar gael gan gynnwys:

- Swyddi a gyrfaoedd y Cyngor
- Profiad gwaith
- Rhaglen i raddedigion

## Gweithio Sir Gâr

Mae **Gweithio Sir Gâr** yn brosiect i helpu unigolion sy'n ddi-waith neu'n gweithio llai na 16 awr yr wythnos i ddod o hyd i waith hirdymor. Mae swyddogion wedi eu lleoli yng nghanolfannau Hwb y Cyngor yn gallu darparu cymorth a chyngor dwys un-i-un i'r rheiny sydd ei angen.

## Cyflogaeth a chymorth ELITE

Mae ELITE yn darparu cefnogaeth wedi ei theilwra i unigolion ag anableddau neu anawsterau er mwyn eu helpu i gael a chadw gwaith. **Dysgwch fwy yma**.

## Busnes

Mae adran Cyllid Busnes y Cyngor yn rhoi gwybodaeth am y cymorth sydd ar gael i'r rheiny sydd am ddechrau neu dyfu eu busnes. Dilynwch **y ddolen hon i ddysgu mwy**.



**Rhai o gyflogwyr Sir Gâr**

- Castell Howell
- Yr Egin
- Tinopolis
- Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant
- Parc y Scarlets
- Agri Advisor

# ADDYSG A GOFAL PLANT

## Addysg

Fel y nodwyd yn **Adran 2** mae modd canfod ysgolion lleol i'r ardal yr ydych yn bwriadu symud iddi drwy ddilyn **y ddolen hon i wefan 'Fy Ysgol Leol' Llywodraeth Cymru**. Gallwch hefyd ddefnyddio'r wefan i ganfod manylion cyswllt ysgolion unigol ynghyd ag adroddiadau Estyn.

Mae modd canfod gwybodaeth ynghylch ysgolion a dysgu yn Sir Gaerfyrddin drwy ymweld â **gwefan Cyngor Sir Gaerfyrddin**. Yno gallwch ganfod manylion ynghylch:

- Dyddiadau tymor ysgol
- Mynediad i'r ysgol a newid ysgol
- Hanfodion ysgol
- Cymorth ariannol
- Cludiant ysgol
- Prydau ysgol

## Gofal plant

Mae'r ddarpariaeth gofal plant sydd ar gael i chi'n amrywio o ardal i ardal. Ffordd dda o ddarganfod pa wasanaethau sydd ar gael i chi yw defnyddio'r **Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd lleol** gan Lywodraeth Cymru i ganfod gwybodaeth am ofal plant yn eich ardal chi.

Gallwch ganfod Gwasanaeth Gofal i deuluoedd Sir Gaerfyrddin **drwy ddilyn y ddolen hon**. Mae'r gwasanaeth hwn yn rhoi cymorth i deuluoedd i gael mynediad at adnoddau a gwasanaethau yn yr ardal. Mae hyn yn cynnwys cymorth i ganfod opsiynau gofal plant, cymorth gyda chostau gofal, adnoddau i'r rheiny sy'n gofalu am blant a gwybodaeth am weithgareddau a digwyddiadau.

## Canolfannau iaith

Prif ganolfan iaith Sir Gâr yw Canolfan Iaith Gwên, Maes y Gwendraeth (blynyddoedd 3-6) sy'n adeilad newydd pwrpasol. Mae newydd-ddyfodiaid Blwyddyn 3 i 6 yn mynychu'r Ganolfan yn gyson dros ddeg wythnos o'r tymor. Yn unol â'r galw, ceir Canolfannau Iaith yn Ysgol Llangadog ac Ysgol Griffith Jones hefyd. I ddysgu mwy, **dilynwch y ddolen hon i wefan y Cyngor**.

## Tu allan i'r ysgol

Mentrau Iaith: Mae tair Menter Iaith yn Sir Gâr, sef:

- Menter Gorllewin Sir Gâr
- Menter Dinefwr
- Menter Gwendraeth Elli

Maent i gyd yn fentrau gweithgar sy'n cynnig llwyth o gyfleoedd i blant a phobl ifanc gymdeithasu a mwynhau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Yr Urdd yn Sir Gâr: Mae'r sir wedi ei rhannu'n ddwy ran, Dwyrain a Gorllewin Myrddin, gyda dros 6000 o aelodau yn yr ardal. Dysgwch fwy **drwy ddilyn y ddolen hon**.

Clybiau Ffermwyr Ifanc Sir Gâr: Gyda dros 800 o aelodau a dros 20 o glybiau gweithredol yn y sir, mae'r Ffermwyr Ifanc yn Sir Gâr yn cynnig cyfleoedd a phrofiadau arbennig. Dysgwch fwy **yma**.

# IECHYD A GOFAL

Fel y nodwyd yn **Adran 2**, y ffordd orau o ddod o hyd i wybodaeth am y ddarpariaeth iechyd yn eich ardal yw drwy dudalen '**Gwasanaethau yn agos atoch chi**' GIG Cymru. Mae hwn yn fan cychwyn gwych wrth fynd ati i asesu'r gwasanaethau sydd ar gael yng Ngheredigion a thu hwnt.

## Gofal Cymdeithasol

Mae adran **Gofal Cymdeithasol ac Iechyd** gwefan Cyngor Sir Gaerfyrddin yn adnodd da iawn ar gyfer gwybodaeth ynghylch gwasanaethau yn y sir. Yno gallwch ganfod gwybodaeth ynghylch holl wasanaethau gofal a lles y Cyngor gan gynnwys:

- Taflenni gwybodaeth
- Anabledd ac awtistiaeth
- Iechyd meddwl
- Cymorth gartref
- Rhagnodi cymdeithasol
- Sut i gael help

## Cadw'n iach

Actif yw'r enw ar wasanaeth hamdden a chadw'n heini Cyngor Sir Gaerfyrddin. Gallwch ganfod mwy o fanylion **yma**.

## Canolfannau hamdden

- Dyffryn Aman
- Caerfyrddin
- Llanymddyfri
- Llanelli
- Castell Newydd Emlyn
- Sanclêr



# DIGWYDDIADAU CYMDEITHASOL A'R IAITH GYMRAEG

Mae Sir Gaerfyrddin yn ardal ag iddi fywyd cymdeithasol bywiog, diwylliant ffyniannus gyda'r Gymraeg yn rhan bwysig ohoni, a digon o weithgareddau o bob math i ddiddanu pobl o bob oedran.

Mae tudalen we **Darganfod Sir Gâr** y Cyngor Sir yn lle da i ddechrau edrych am bob math o bethau i'w gwneud a'u gweld yn lleol.

Dyma restr o ddolenni o atyniadau a gweithgareddau yn Sir Gaerfyrddin i chi fwrw golwg arni:

## Cyffredinol

- Castell Carreg Cennen
- Castell Cydweli
- Castell Dinefwr

## Celfyddydau

- Yr Egin
- Theatr Ffwrnes
- Theatr y Lyric
- Theatr y Glowyr
- CWRW Caerfyrddin

## Clybiau Chwaraeon

I ganfod pa glybiau ac adnoddau chwaraeon sydd ar gael yn yr ardal, dilynwch y dolenni isod i ffeindio rhestr gyflawn ac i chwilio am eich ardal:

- Clybiau Rygbi
- Clybiau Pêl-droed
- Clybiau Hoci
- Clybiau Pêl-rwyd
- Cyrsiau Golff

## Atyniadau a Gweithgareddau

- Amgueddfa Sir Gâr
- Parc gwledig Pen-bre
- Amgueddfa Wlân Cymru
- Rheilffordd Dyffryn Teifi
- Llwybrau Beicio Mynydd Cwm Rhaeadr
- Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru

## Mentrau Cymunedol

- Padlyrs Llandysul

# ADRAN 4: CEREDIGION



**Os ydych yn dychwelyd i Geredigion neu'n symud yno am y tro cyntaf, mae'n werth ymgyfarwyddo â gwefan Cyngor Sir Ceredigion er mwyn dod i ddeall yr holl wasanaethau a'r cymorth mae'r Cyngor yn eu darparu. Mae'r ddogfen Croeso i Geredigion a baratowyd gan y Cyngor hefyd yn fan cychwyn da.**





# TAI

Dros y degawdau diwethaf mae rhai ardaloedd o Geredigion wedi gweld cynnydd yn y niferoedd o ail gartrefi a chynnydd sylweddol mewn prisiau tai mewn rhai mannau. Mae hyn wedi arwain at brinder tai mewn rhai ardaloedd a chymunedau ble mae bobl leol yn ei chael hi'n anodd canfod cartref sy'n ateb eu gofynion.

Yn ôl **Mynegai Prisiau Tai Principality**, y prisiau tai cyfartalog yn ôl mathau o eiddo Ceredigion yw:

**£322,936** am dŷ ar wahân

**£203,985** am dŷ pâr

**£191,311** am dŷ teras

**£187,331** am fflat

## Strategaeth Tai Lleol

Mae Strategaeth Tai Lleol Cyngor Ceredigion yn amlinellu gweledigaeth a chynlluniau'r Cyngor ar gyfer tai yn yr ardal o 2023 hyd at 2028. Yn ogystal â chydnabod rôl tai wrth ddylanwadu ar iechyd a lles unigolion, mae'r strategaeth hefyd yn ystyried goblygiadau polisi tai ar ddiwylliant a'r iaith Gymraeg. Mae'r ddogfen yn pennu blaenoriaethau allweddol i'r Cyngor eu dilyn, gan gynnwys:

- Darparu tai sy'n ateb anghenion cymunedau yng Ngheredigion
- Sicrhau bod trigolion Ceredigion yn byw mewn llety addas a chynaliadwy, o ansawdd da
- Sicrhau bod digartrefedd yn ddigwyddiad prin, byr, nad yw'n digwydd eto
- Darparu cymorth amserol a phriodol i gynnal byw'n annibynnol

Noda'r Strategaeth fodolaeth Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg Llywodraeth Cymru gan ddatgan y bydd y Strategaeth Dai yn parhau i fod yn ymwybodol o'r cynllun hwn gan hefyd gefnogi Strategaeth Iaith Ceredigion 2023-2028. I ddysgu mwy am y strategaeth 'Tai i bawb' **dilynwch y ddolen hon**. I ddarllen y ddogfen yn ei chyfanrwydd ar ffurf PDF **dilynwch y ddolen hon**.

## Premiwm Treth Cyngor ar ail gartrefi a thai gwag

Ym mis Ebrill 2023, **cynyddodd Llywodraeth Cymru'r premiwm uchaf posibl** y gall awdurdodau lleol ei godi ar ail gartrefi i 300%. Mae hyn yn golygu fod gan gynghorau sir y grym i godi tair gwaith yr hyn y mae perchnogion ail gartrefi ei dalu mewn treth cyngor na phe baent yn byw yna'n barhaol. Cyn y cam hwn yr uchafswm posibl roedd awdurdodau lleol yn gallu ei codi oedd premiwm o 100%.

Ers mis Ebrill 2024 mae Cyngor Ceredigion wedi bod gosod cyfraddau uwch ar eiddo gwag hir dymor ac ail gartrefi. Diffinnir tai gwag neu 'annedd wag hirdymor' yn dŷ sydd wedi bod yn wag am flwyddyn, heb ei ddefnyddio a heb ei ddodrefnu'n sylweddol. Mae Cyngor Ceredigion yn codi premiwm o 100% ar dai gwag sydd wedi bod yn wag ers hyd at 5 mlynedd, 150% ar dai sydd wedi bod yn wag am hyd at 10 mlynedd a 200% ar dai sydd wedi bod yn wag ers dros 10 mlynedd.

Gosodwyd premiwm o 100% ar dreth cyngor ail gartrefi yng Ngheredigion o fis Ebrill 2024, bydd yn cael ei gynyddu i 150% o Ebrill 1af 2025. Mae eithriadau yn eu lle ar gyfer tai sydd ar y farchnad i'w gwerthu neu eu rhentu (hyd at 12 mis), annedd sy'n rhan o dŷ mwy, aelodau o'r lluoedd arfog ac unigolion sy'n bodloni amryw o feini prawf eraill. I ganfod mwy o wybodaeth ynghylch polisïau tai gwag ac ail gartrefi Cyngor Ceredigion, **dilynwch y ddolen hon**.



# CYMORTH

## Y Cynllun Tai Gwag

Mae'r Cynllun Tai Gwag yn rhaglen sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru a'i gweinyddu drwy awdurdodau lleol ym mhob rhan o Gymru i annog perchnogion tai i ddod â thai gwag yn ôl i ddefnydd llawn amser. Mae'r cynllun yn darparu benthyciadau di-log o hyd at £25,000 i berchnogion tai i wella cyflwr ac adnewyddu eu tai fel eu bod yn gallu cael eu defnyddio drwy eu rhentu neu eu gwerthu ymlaen. Mae modd i Gyngor Ceredigion roi cymorth a chyngor pellach i chi ynghylch y cynllun gan gynnwys:

- Cyngor ar ba waith angenrheidiol sydd angen ei wneud er mwyn sicrhau fod modd i rywun fyw yn y tŷ
- Cyngor ar y ffordd orau i drefnu'r gwaith hwn
- Help i ganfod tenantiaid ar gyfer yr eiddo
- Cymorth wrth werthu'r tŷ
- Llythyr i gefnogi cais i dalu cyfradd is o DAW ar unrhyw waith a wnaed (os yw'r tŷ wedi bod yn wag am dros 2 flynedd, gostyngir TAW i 5%).

I ddysgu mwy am y rhaglen, a'r hyn sydd angen ei sicrhau er mwyn bod yn gymwys ar gyfer benthyciad, **dilynwch y ddolen hon i wefan Llywodraeth Cymru**. Gallwch gysylltu â Swyddog Eiddo Gwag Cyngor Ceredigion i drafod ymhellach drwy ffonio 01545 570881 neu drwy e-bostio **tai@ceredigion.gov.uk**.

## Y Cynllun Tai Cymunedol - Rhannu Ecwiti

Mae'r Cynllun Tai Cymunedol yn bolisi cenedlaethol wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru sy'n cael ei weithredu gan bob Cyngor Sir yng Nghymru. Fel ym mhob sir arall, amcan Cynllun Tai Cymunedol Cyngor Sir Ceredigion yw cefnogi unigolion a theuluoedd i fod yn berchen ar eu tai eu hunain drwy gynllun rhannu ecwiti gyda'r Cyngor.

Mae'r Cyngor yn darparu amrywiaeth o fenthyciadau a rhaglenni rhannu ecwiti i bobl, sy'n amrywio yn ôl anghenion a chyllid gwahanol unigolion. Nod y cynllun yw cynorthwyo pobl sydd â chynilon cyfyngedig i brynu tŷ y bydd y Cyngor yn eiddo ar gyfran ohono hyd nes bod y ddyled i'r Cyngor yn cael ei had-dalu.

Mae'r cynllun yn cynnwys benthyciadau i brynu eiddo i fyw ynddo o hyd at 20% o bris prynu eiddo hyd at uchafswm o £300,000 a benthyciadau eiddo gwag o 40% o bris prynu eiddo hyd at uchafswm o £300,000. Mae modd defnyddio'r cynllun cyfranddaliadau ecwiti ochr yn ochr â'r grant **Benthyciadau Gwella Cartrefi** a'r **Cynllun Grantiau Cartrefi Gwag Cenedlaethol** i drosglwyddo'r eiddo i lawn ddefnydd os bodlonir y meini prawf ar gyfer pob un. Mae modd **dysgu mwy am y cynllun yma**, ac am **delerau'r cynllun drwy ddilyn y ddolen hon**.

## Gwybodaeth Bellach

I ddysgu mwy am gynlluniau tai Cyngor Sir Ceredigion ewch **i dudalen we Adran Tai'r Cyngor**.

## Gwerthwyr tai yng Ngheredigion:

- Morgan & Davies
- Evans Bros
- John Francis
- JJ Morris
- Cardigan Bay Properties
- Padarn Property
- Aled Ellis
- Dai Lewis
- Alexanders - Aberystwyth

# SWYDDI A CHYFLEOEDD GWAITH

Mae amrywiaeth helaeth o swyddi mewn nifer o sectorau yng Ngheredigion ac mae'n lle gwych i ddechrau a datblygu gyrfa neu sefydlu a thyfu busnes. Yn yr adran hon ceir gwybodaeth am swyddi yn yr ardal a dolenni defnyddiol i chi ddechrau edrych am swydd.

## Adran Swyddi a Gyrfaoedd Cyngor Sir Ceredigion

Mae **Adran Swyddi a Gyrfaoedd y Cyngor** yn lle da i ddechrau wrth edrych am waith a chymorth i hyfforddi a ffeindio gwaith. Yno gallwch ganfod gwybodaeth am wasanaeth Cymorth Cyflogadwyedd Ceredigion, gall eich helpu chi i ganfod swydd os ydych yn chwilio am waith. Maent yn darparu gwasanaethau mentora ar draws Ceredigion i'r rheiny dros 16 sy'n chwilio am waith. Gallent eich helpu drwy gynnig:

- Sesiynau mentora un-i-un i'ch helpu chi greu llwybr cyflogadwyedd, ysgrifennu CV, cymorth wrth wneud cais am swydd, a chyngor ar sut i ymdopi â chyfweliadau
- Cymorth ymarferol i fagu hyder ac i feithrin cymhwysedd ar gyfer swyddi
- Cefnogaeth i ddatblygu sgiliau a'r hyn sydd ei angen er mwyn eich gwneud yn gyflogadwy
- Cymwysterau neu ardystiad sy'n berthnasol i waith
- Help i gael profiad gwaith, gwneud gwaith gwirfoddol a threialon gwaith

Am fwy o wybodaeth am yr hyn y gallent gynnig, **dilynwch y ddolen hon i wefan y Cyngor**.

## Gweithio gyda'r Cyngor

Mae **gwefan gyrfaoedd y Cyngor** yn rhestru'r holl gyfleoedd gwaith sydd gan y Cyngor i'w cynnig gydag amrywiaeth eang o swyddi gwahanol ar gael.

## Grantiau

Os ydych yn rhedeg busnes neu'n ystyried sefydlu un newydd, mae'n werth edrych ar y cyfleoedd cyllid sydd ar gael drwy **ymweld â thudalen cyllid a grantiau'r Cyngor** er mwyn gweld pa gymorth sydd ar gael.



## Cynnal y Cardi

Mae Cynnal y Cardi yn bartneriaeth economaidd leol sy'n dod ag amryw o randdeiliad ynghyd i gynghori Cyngor Sir Ceredigion ac i gefnogi trigolion, cymunedau a busnesau yn yr ardal. I ddysgu mwy am y fenter, **dilynwch y ddolen hon i'r wefan**.

## Cyflogaeth a chymorth ELITE

Mae ELITE yn darparu cefnogaeth wedi ei theilwra i unigolion ag anableddau neu anawsterau er mwyn eu helpu i gael a chadw gwaith. **Dysgwch fwy yma**.

## SBARC Ceredigion

Rhaglen arbennig ar gyfer entrepreneuriaid Ceredigion, sy'n helpu i ddatblygu sgiliau mentergarwch ac arweinyddiaeth. Dysgwch fwy am y rhaglen **fan hyn**.



### Rhai o gyflogwyr Ceredigion

- Prifysgol Aberystwyth
- Mentera
- ABER Instruments
- Delineate
- Y Llyfrgell Genedlaethol
- Arad Goch
- Barcud
- Moody Cow

# ADDYSG A GOFAL PLANT

## Addysg

Fel y nodwyd yn **Adran 2** mae modd canfod ysgolion lleol i'r ardal yr ydych yn bwriadu symud iddi drwy ddilyn **y ddolen hon i wefan 'Fy Ysgol Leol' Llywodraeth Cymru**. Gallwch hefyd ddefnyddio'r wefan i ganfod manylion cyswllt ysgolion unigol ynghyd ag adroddiadau Estyn.

Mae modd canfod gwybodaeth ynghylch ysgolion a dysgu yng Ngheredigion drwy **ymweld â gwefan Cyngor Sir Ceredigion**. Yno gallwch ganfod manylion ynghylch:

- Ysgolion yr ardal
- Prydau ysgol a Phrydau ysgol am ddim
- Derbyniadau ysgol
- Cludiant i'r ysgol
- Anghenion dysgu ychwanegol
- Cyllid myfyrwyr
- Grant hanfodion ysgol
- Addysg feithrin 3-4 oed

## Gofal plant

Mae'r ddarpariaeth gofal plant sydd ar gael i chi'n amrywio o ardal i ardal. Ffordd dda o ddarganfod pa wasanaethau sydd ar gael i chi yw defnyddio'r **Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd lleol** gan Lywodraeth Cymru i ganfod gwybodaeth am ofal plant yn eich ardal chi.

I ganfod gwybodaeth am y cymorth sydd ar gael i blant, pobl ifanc a theuluoedd, **dilynwch y ddolen hon i wefan Cyngor Sir Ceredigion**. Yno gallwch ganfod manylion ynghylch:

- Cymorth rhianta a theulu
- Gofal plant a chwarae
- Gwasanaeth ieuenctid Ceredigion
- Plant ag anabledd
- Gofalwyr ifanc

## Canolfannau iaith

Mae gan Geredigion ganolfannau trochi iaith ar gyfer plant sy'n symud i'r ardal sydd am dderbyn addysg Gymraeg ond nad ydynt yn rhugl yn yr iaith. Mae tair canolfan iaith o'r math hwn yng Ngheredigion. **Canolfan y Castell** sy'n gwasanaethu ardaloedd Aberteifi a Llandysul, **Canolfan y Felin** sy'n gwasanaethu Llambed, Tregaron ac Aberaeron a **Chanolfan Penweddig** sy'n gwasanaethu ardal Aberystwyth. Gallwch ddysgu mwy drwy ymweld â **gwefan Canolfannau Iaith Ceredigion**.

## Tu allan i'r ysgol

Mae llu o weithgareddau a digwyddiadau'n cael eu trefnu i blant a phobl ifanc yng Ngheredigion. Mae'r **Mentrau Iaith**, **yr Urdd** a'r **Clybiau Ffermwyr Ifanc** yn cynnig ystod eang o brofiadau i blant gael cymdeithasu a chwrdd â ffrindiau newydd drwy gyfrwng y Gymraeg.

- **Cered - Menter Iaith Ceredigion:** Darparu gweithgareddau, gwybodaeth, cyngor ac arweiniad er mwyn cynnal a datblygu'r defnydd o'r Gymraeg fel iaith gymunedol hyfyw yng Ngheredigion.
- **Yr Urdd yng Ngheredigion:** Gwefan yr Urdd yng Ngheredigion. Mae 98% o holl ysgolion Ceredigion yn cymryd rhan mewn o leiaf un elfen o waith yr Urdd bob blwyddyn.
- **Clybiau Ffermwyr Ifanc Ceredigion:** Mae 19 o glybiau ffermwyr ifanc yng Ngheredigion, dros 700 o aelodau gyda'r mwyafrif yn cwrdd yn wythnosol.
- **Gwasanaeth Ieuenctid Ceredigion:** Cwrdd yn wythnosol ym Mhenparcau, Aberaeron, Aberteifi a Llambed.
- **Menter Gwyddoniaeth MAWR:** Gweithgareddau gwyddoniaeth hwyliog i blant ysgol gynradd.
- **Theatr Felinfach:** Mae Theatr Felinfach yn trefnu sesiynau drama i blant a phobl ifanc o bob oedran.
- **Area 43:** Helpu a chefnogi pobl ifanc yng Ngheredigion a thu hwnt.



# IECHYD A GOFAL

Fel y nodwyd yn **Adran 2**, y ffordd orau o ddod o hyd i wybodaeth am y ddarpariaeth iechyd yn eich ardal yw drwy dudalen '**Gwasanaethau yn agos atoch chi**' GIG Cymru. Mae hwn yn fan cychwyn gwych wrth fynd ati i asesu'r gwasanaethau sydd ar gael yng Ngheredigion a thu hwnt.

## Gofal Cymdeithasol

Mae **adran gofal cymdeithasol a lles gwefan Cyngor Sir Ceredigion** yn adnodd da iawn ar gyfer gwybodaeth ynghylch gwasanaethau yn y sir. Yno gallwch ganfod gwybodaeth ynghylch holl wasanaethau gofal a lles y Cyngor gan gynnwys:

- **Cymorth i ofalwyr**
- **Cymorth i oedolion**
- **Cymorth yn y cartref**
- **Gwybodaeth am gyngor a chymorth ehangach**
- **Anableddau**

## Canolfannau Lles

Mae creu Canolfannau Lles yn elfen allweddol o Strategaeth Gorfforaethol Cyngor Sir Ceredigion 2022-2027 a'i Strategaeth Gydol Oes a Llesiant. Mae gan yr awdurdod lleol uchelgais i greu Canolfannau Lles yng ngogledd, canol a de'r sir.

Mae Canolfannau Lles yn darparu ystod eang o wasanaethau sy'n ystyried ac yn gwella agweddau llesiant corfforol, meddyliol a chymdeithasol unigolyn. Drwy ddarparu'r gwasanaethau hyn i breswylwyr yn eu cymunedau, nod y Cyngor yw sicrhau eu bod yn cael cymorth cyn gynted â phosibl, a fydd yn atal achosion rhag gwaethygu i wasanaethau statudol. Am fwy o wybodaeth **dilynwch y ddolen hon**.

## Canolfannau hamdden

Mae chwe Chanolfan Hamdden yng Ngheredigion sydd naill ai'n cael eu rhedeg neu eu cefnogi gan y Cyngor sy'n cynnig amrywiaeth o weithgareddau a chyfleusterau i bobl o bob oed:

- **Canolfan Hamdden Syr Geraint Evans, Aberaeron**
- **Canolfan Hamdden Teifi, Aberteifi**
- **Canolfan Hamdden Llambed, Llanbedr Pont Steffan**
- **Canolfan Hamdden Plascrug, Llanbadarn Fawr**
- **Canolfan Calon Tysul, Llandysul**
- **Canolfan Hamdden Caron, Tregaron**

Am fwy o wybodaeth am y canolfannau hyn a'r hyn maent yn ei gynnig, **ewch i wefan Ceredigion Actif**.

# DIGWYDDIADAU CYMDEITHASOL A'R IAITH GYMRAEG

Mae Ceredigion yn ardal ag iddi fywyd cymdeithasol bywiog, diwylliant ffyniannus gyda'r Gymraeg yn rhan bwysig ohoni a digon o weithgareddau o bob math i ddiddanu pobl o bob oedran.

Mae tudalen gwe **Darganfod Ceredigion** y Cyngor Sir yn lle da i ddechrau edrych am bob math o bethau i'w gwneud a'u gweld yn lleol.

Dyma restr o ddolenni o atyniadau a gweithgareddau yng Ngheredigion i chi fwrw golwg arni:

## Cyffredinol

- Archwilio Ceredigion
- Llyfrgell Genedlaethol Cymru

## Celfyddydau

- Theatr Felinfach
- Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth
- Mwldan
- Morlan
- Gigs Cantre'r Gwaelod

## Clybiau Chwaraeon

I ganfod pa glybiau ac adnoddau chwaraeon sydd ar gael yn yr ardal, dilynwch y dolenni isod i ffeindio rhestr gyflawn:

- Clybiau Rygbi
- Clybiau Pêl-droed
- Clybiau Hoci
- Clybiau Pêl-rwyd
- Cyrsiau Golff

## Atyniadau a Gweithgareddau

- Amgueddfa Ceredigion
- Bwlch Nant yr Arian
- Rali Ceredigion
- Castell Aberteifi
- Llanerchaeron

## Mentrau Cymunedol

- Tafarn Dyffryn Aeron



# ADRAN 5: GWYNEDD

Os ydych yn dychwelyd i Wynedd neu'n symud yno am y tro cyntaf, mae'n werth edrych ar yr adran '**Symud i Wynedd**' ar wefan Cyngor Gwynedd. Yno gallwch ganfod **e-lyfr sy'n eich cyflwyno i hanes, iaith a diwylliant yr ardal**.



# CANFOD GWASANAETHAU

Os ydych yn gwybod eich cyfeiriad yn barod, mae modd defnyddio gwasanaeth '**Lle dwi'n byw**' Cyngor Gwynedd i ganfod gwybodaeth am wasanaethau Cyngor Gwynedd yn yr ardal. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth ar:

- Ganolfannau ailgylchu
- Dalgylch ysgolion
- Canolfannau hamdden
- Llyfrgelloedd
- Gorsafoedd pleidleisio

Hyd yn oed os nad ydych yn gwybod eich cyfeiriad, mae modd mewnbynnu cod post o wahanol ardaloedd i weld pa wasanaethau sydd ar gael.



# TAI

Dros y degawdau diwethaf mae rhai ardaloedd o Wynedd wedi gweld cynnydd yn y niferoedd o ail gartrefi a chynnydd sylweddol mewn prisiau tai mewn rhai mannau. Mae hyn wedi arwain at brinder tai mewn rhai ardaloedd a chymunedau ble mae pobl leol yn ei chael hi'n anodd canfod cartref sy'n ateb eu gofynion.

Eto, yn ddiweddar dangosodd adroddiad gan Principality fod prisiau tai yng Ngwynedd wedi gostwng 12% dros y flwyddyn diwethaf, y **cwymp mwyaf o unrhyw sir yng Nghymru**. Mae rhai sylwebwyr wedi dadlau fod y cwymp hwn wedi dod yn sgil y Premiwm Treth Cyngor ar ail gartrefi sydd yng Ngwynedd ynghyd â pholisi o'r enw Cyfarwyddyd Erthygl Pedwar.

## Premiwm Treth Cyngor ar ail gartrefi

Ym mis Ebrill 2023, **cynyddodd Llywodraeth Cymru'r premiwm uchaf posib** y gall awdurdodau lleol godi ar ail gartrefi i 300%. Mae hyn yn golygu fod gan gynghorau sir y grym i godi tair gwaith yr hyn y mae perchnogion ail gartrefi yn ei dalu mewn treth cyngor na phe baent yn byw yno'n barhaol. Cyn y cam hwn yr uchafswm posib roedd awdurdodau lleol yn gallu ei godi oedd premiwm o 100%.

Ers Ebrill 2023, mae Cyngor Gwynedd wedi bod yn codi premiwm o 150% ar ail gartrefi yn y sir. Gwynedd oedd y cyntaf o awdurdodau lleol Cymru i gynyddu cyfradd y premiwm oddi fewn i ffiniau'r trothwy newydd. Mae'r Cyngor yn gobeithio y bydd yn cael effaith ar y nifer o dai gwag yn yr ardal ac yn lleihau'r niferoedd o ail gartrefi a llety gwyliau. Mae peth tystiolaeth fod y polisi'n cael effaith, gydag **adroddiad diweddar** yn dangos fod 232 yn llai o ail gartrefi wedi'u cofrestru yng Ngwynedd yn Ebrill 2024 o gymharu â 2023, i lawr o 4,605 i 4,373, gostyngiad o 5%.

Am fwy o wybodaeth ynghylch y premiwm treth cyngor ar gyfer ail gartrefi yng Ngwynedd a sut mae'n gweithredu, **dilynwch y ddolen hon i wefan Cyngor Gwynedd**.

## Cyfarwyddyd Erthygl Pedwar

Ym mis Gorffennaf 2024 fe wnaeth Cabinet Cyngor Gwynedd gefnogi cynllun i reoli'r defnydd o dai fel ail gartrefi yn y sir drwy ei gwneud yn orfodol i berchnogion tai dderbyn caniatâd cynllunio cyn newid defnydd prif gartref yn ail gartref neu'n llety gwyliau tymor byr. Y gobaith yw y bydd hyn yn golygu y bydd llai o'r stoc dai yn cael eu trosi'n dai haf neu'n llety gwyliau.

Adnabyddir y Cynllun fel Cyfarwyddyd Erthygl 4, a daw'r newid yn dilyn penderfyniad Llywodraeth Cymru i ddiwygio'r fframwaith cynllunio cenedlaethol gan gyflwyno tri dosbarth defnydd newydd ar gyfer cartrefi, sef prif gartref, cartref eilaidd a llety tymor byr yn 2022. Mae'n rhoi'r gallu i gynghorau sir fel yr awdurdod cynllunio lleol i newid polisïau cynllunio lleol er mwyn sicrhau bod angen caniatâd cynllunio arbennig i newid o un dosbarth defnydd i'r llall.

Ym mis Ionawr 2025 fe wnaeth Awdurdod Cynllunio Parc Cenedlaethol Eryri, sy'n awdurdod cynllunio ar wahân i un Gwynedd, er bod mwyafrif y parc yng Ngwynedd, ddilyn Cyngor Gwynedd drwy gyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 yno hefyd. Dyma'r ddwy ardal gynllunio gyntaf yng Nghymru i ddefnyddio'r grymoedd newydd hyn i geisio rheoli'r niferoedd o dai haf a llety gwyliau.

Gallwch ddysgu mwy am Gyfarwyddyd Erthygl Pedwar **drwy ddilyn y ddolen hon**.

## Prisiau tai

Yn ôl **Mynegai Prisiau Tai Principality**, y prisiau tai cyfartalog yn ôl mathau o eiddo yng Ngwynedd yw:

- **£386,862** am dŷ ar wahân
- **£209,374** am dŷ pâr
- **£162,171** am dŷ teras
- **£120,248** am fflat

Mae amrywiaeth o fentrau a chynlluniau ar y gweill yng Ngwynedd i ehangu'r ddarpariaeth tai yno. Mae'r rhain yn cael eu harwain yn bennaf gan Gyngor Gwynedd ar y cyd ag asiantaethau tai o'r ardal. Mae nifer o'r cynlluniau hyn wedi eu targedu yn benodol at sicrhau tai fforddiadwy digonol i bobl leol. Os ydych yn symud yn ôl i'r ardal neu'n symud yno am y tro cyntaf, gall eich cymhwysedd ar gyfer y cynlluniau hyn amrywio a bod yn ddibynnol ar eich cysylltiadau blaenorol â'r ardal. Mae'n werth astudio'r cynigion sydd ar gael er mwyn gweld os ydych yn cymhwyso ar gyfer y gwahanol gynlluniau a pha un sy'n gweithio orau i chi.

# CYMORTH

## Cynllun Cartrefi Gwag

Mae Cynllun Cartrefi Gwag Cyngor Gwynedd wedi bod yn weithredol ers 2021. Nod y cynllun yw cynorthwyo unigolion a theuluoedd i droi eiddo gwag yn dai o safon iddynt gael byw ynddynt drwy ddarparu grantiau adnewyddu.

Dim ond i brynwyr tro cyntaf roedd y grantiau hyn ar gael i ddechrau, ond ers Hydref 2024 mae'r cynllun yn agored i bob prynwr sy'n cyrraedd y meini prawf. Cynyddwyd uchafswm y grant oedd ar gael i adnewyddu tai o £15,000 i £20,000 ar yr un pryd. Mae'r cynllun gwerth £4 miliwn ac yn cael ei ariannu gan gyllid a ddaw yn sgil y Premiwm Treth Cyngor ar ail gartrefi (uchod).

Hyd yma mae o leiaf 170 o drigolion drwy Wynedd wedi elwa o'r cynllun yn ôl datganiad diweddar gan y Cyngor. Mae modd canfod mwy o wybodaeth ynghylch Cynllun Grant Cartrefi Gwag Gwynedd **drwy ymweld â gwefan Cyngor Gwynedd**.

## Tŷ Gwynedd

Mae Tŷ Gwynedd yn gynllun sy'n cael ei redeg gan Gyngor Gwynedd wedi'i dargedu at bobl sy'n cael anhawster wrth brynu neu rentu tŷ ar y farchnad agored, ond nad ydynt yn cyrraedd y meini prawf ar gyfer cael tŷ cymdeithasol. Mae'r cynllun yn cael ei weinyddu gan Tai Teg, y corff sy'n gweinyddu cynlluniau tai fforddiadwy ar gyfer y Cyngor mewn partneriaeth ag asiantaethau tai. Ym mis Ionawr 2025 fe roddodd Pwyllgor Cynllunio Gwynedd ganiatâd i Gyngor Gwynedd adeiladu **naw tŷ newydd ym Morfa Nefyn** fel rhan o'r cynllun, ac mae'r gwaith paratoi ar gyfer yr adeiladu wedi dechrau. Nod y Cyngor yw adeiladu 100 o gartrefi newydd dros y blynyddoedd nesaf gyda chynlluniau ar y gweill ar draws tri safle yn Llanberis, Bangor a Morfa Nefyn. I ddysgu mwy am y prosiect, **dilynwch y ddolen hon i wefan Cyngor Gwynedd**.

## Tai Teg

Tai Teg yw'r corff sy'n gweinyddu darpariaeth tai cymdeithasol Cyngor Gwynedd mewn partneriaeth ag ystod eang o gyrff ac asiantaethau tai. Maent yn darparu cymorth gyda rhentu a phrynu tai fforddiadwy i unigolion sydd â chysylltiadau lleol â gogledd Cymru. Mae modd i unigolion lleol gofrestru gyda Tai Teg er mwyn gweld os ydynt yn cyrraedd y meini prawf ar gyfer cymorth. Mae Tai Teg yn rhedeg nifer o raglenni, gan gynnwys:

- **Y Cynllun Prynu i Osod:** Trwy'r cynllun Prynu i Osod, mae Cyngor Gwynedd yn prynu tai i'w gosod i drigolion y sir ar bris sy'n fforddiadwy iddynt. Amcan y cynllun yw cynyddu'r stoc dai fforddiadwy safonol sydd yng Ngwynedd. Mae'r cynllun yn bartneriaeth rhwng Cyngor Gwynedd ac Adra sy'n rheoli'r eiddo ar ran y Cyngor. Rhaid i'r rheiny sydd eisiau rhentu'r tai hyn fodloni meini prawf Tai Teg. Am ragor o wybodaeth ynghylch y cynllun, **dilynwch y ddolen hon i wefan Cyngor Gwynedd**.
- **Cynllun Prynu Cartref Gwynedd:** Mae Cymorth i Brynu yn bolisi cenedlaethol yng Nghymru wedi'i ariannu ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a chynghorau sir. Yng Ngwynedd fe adnabyddir y cynllun fel 'Prynu Cartref Gwynedd' ac fe'i gweinyddir gan Tai Teg. Amcan Prynu Cartref Gwynedd yw cefnogi unigolion a theuluoedd i berchnogi eu tai eu hunain drwy gynllun rhannu ecwiti gyda'r Cyngor. Mae'r Cyngor yn darparu amrywiaeth o fenthyciadau a rhaglenni rhannu ecwiti i bobl, sy'n amrywio yn ôl anghenion a chyllid gwahanol unigolion. Nod y cynllun yw cynorthwyo pobl sydd â chynilon cyfyngedig i brynu tŷ y bydd y Cyngor yn eiddo ar gyfran ohono hyd nes bod y ddyled i'r Cyngor yn cael ei had-dalu. Nid yw'r cynllun hwn ar gyfer pobl sydd â'r gallu i brynu cartref addas ar gyfer eu hanghenion, na'r rheiny sy'n byw mewn cartrefi digonol ond yn dymuno symud i gartref drytach. I ddysgu mwy am y cynllun **dilynwch y ddolen hon**.

## Gwybodaeth Bellach

I ddysgu mwy am gynlluniau tai Cyngor Gwynedd a pa fath o gymorth sydd ar gael i chi ewch i **dudalen gwe adran tai y Cyngor**.

## Dolenni Cyflym

Dyma restr o ddolenni defnyddiol wrth i chi ddechrau chwilio am dŷ yng Ngwynedd.




### Asiantaethau Tai

- Cymdeithas Tai Gwynedd
- Adra
- Clwyd Alyn Housing
- Grŵp Cynefin
- Tai Gogledd Cymru

### Gwerthwyr tai lleol

- Eiddo Susan Jones Properties
- Williams & Goodwin The Property People
- J Bradburne Price & Co
- Dafydd Hardy
- Beresford Adams
- Carter Jonas
- Elvins
- Monopoly Buy Sell Rent
- Morris Marhsall & Poole
- RG Jones Bala
- Tir ac Eiddo LWH
- Tom Parry & Co
- Tudor Estate Agents
- Varcity Living Ltd
- W. Owen
- Walter Lloyd Jones & Co
- Welsh Property Services

# SWYDDI A CHYFLEOEDD GWAITH

Mae amrywiaeth helaeth o swyddi mewn nifer fawr o sectorau yng Ngwynedd ac mae'n lle gwych i ddechrau a datblygu gyrfa neu sefydlu a thyfu busnes. Yn yr adran hon ceir gwybodaeth am swyddi yn yr ardal a dolenni defnyddiol i chi ddechrau edrych am swydd.

## Gwaith Gwynedd

**Gwaith Gwynedd** yw'r enw a roddir i gynllun Cyngor Gwynedd i helpu trigolion i wireddu eu llawn botensial. Mae'r rhaglen yn cynnwys **help i sicrhau swydd neu ddychwelyd i'r gweithle** a **chefnogaeth i ddod yn ôl i Wynedd** sy'n cynnwys nifer o ddolenni defnyddiol i helpu unigolion i ganfod swydd. Mae hwn yn fan gwych i ddechrau chwilio am swydd yn yr ardal.

Am wybodaeth ar gyfer busnesau gan gynnwys cyfraddau busnes a'r cymorth sydd ar gael i fusnesau, **dilynwch y ddolen hon**. Am wybodaeth ynghylch arian, cyllid a grantiau busnes, **dilynwch y ddolen hon**.

## Uchelgais Gogledd Cymru

**Uchelgais Gogledd Cymru** yw'r enw ar y fargen dwf ar gyfer gogledd Cymru sy'n ceisio annog twf economaidd yn yr ardal drwy annog cydweithio rhwng gwahanol gwmnïau a sefydliadau ar draws amryw o sectorau. Mae Porth Sgiliau Gogledd Cymru, sy'n cael ei redeg gan Uchelgais Gogledd Cymru, yn darparu llwyth o wybodaeth i unigolion a chwmnïau sy'n chwilio am gyfleoedd gwaith, hyfforddiant a busnes ar draws y gogledd. Ewch i'r porth **drwy ddilyn y ddolen hon**.

## Swyddi Cyngor Gwynedd

Y cyflogwr mwyaf yng Ngwynedd yw'r Cyngor Sir. Mae gan y Cyngor ystod eang o swyddi ar gael i weddu pob mathau o unigolion a lefelau gwahanol o brofiad. Mae modd canfod gwybodaeth am ba swyddi sydd ar gael **drwy ddilyn y ddolen hon**.

## Hwb Menter

Mae'r Hwb Menter yn brosiect sy'n cael ei redeg gan Menter Môn er mwyn helpu unigolion ddechrau busnes yn ardaloedd Gwynedd ac Ynys Môn. Cartref y prosiect yw M-Sparc yng Ngaerwen a Hwb Arloesi Porthmadog. Maent yn gallu darparu gofodau gweithio a chefnogaeth i unrhyw fusnes mewn unrhyw sector. I ddysgu mwy **ewch i wefan Hwb Menter**.

**Rhai cyflogwyr lleol**

- Parc Cenedlaethol Eryri
- Prifysgol Bangor
- Zip World
- Galeri
- Cwmni Da
- Siemens Healthineers
- Rondo

# ADDYSG A GOFAL PLANT

## Addysg

Fel y nodwyd yn **Adran 2** mae modd canfod ysgolion lleol i'r ardal yr ydych yn bwriadu symud iddi drwy ddilyn **y ddolen hon i wefan 'Fy Ysgol Leol' Llywodraeth Cymru**. Gallwch hefyd ddefnyddio'r wefan i ganfod manylion cyswllt ysgolion unigol ynghyd ag adroddiadau Estyn.

Mae modd canfod gwybodaeth ynghylch ysgolion a dysgu yng Ngwynedd drwy **ymweld â gwefan Cyngor Gwynedd**. Yno gallwch ganfod manylion ynghylch:

- **Sut i wneud cais ar gyfer ysgol benodol neu wneud cais i symud ysgol**
- **Addysg Gymraeg**
- **Teithio i'r ysgol**
- **Dyddiadau tymor a gwyliau**
- **Cymorth a chefnogaeth ariannol i blant** gan gynnwys gwybodaeth am brydau ysgol am ddim i blant ysgol uwchradd, cludiant am ddim a help gyda chostau ysgol.
- **Teulu Gwynedd** sy'n darparu cymorth a chefnogaeth ar faterion yn ymwneud â phlant a theuluoedd.
- **Gwasanaethau anghenion dysgu ychwanegol**
- **Gwasanaeth Cwnsela Ysgolion Uwchradd Gwynedd ac Ynys Môn**

## Prentisiaethau

I gael gwybodaeth am brentisiaethau a chynlluniau graddedigion yng Ngwynedd **dilynwch y ddolen hon**.

## Gofal plant

Mae'r ddarpariaeth gofal plant sydd ar gael i chi'n amrywio o ardal i ardal. Ffordd dda o ddarganfod pa wasanaethau sydd ar gael i chi yw defnyddio'r **Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd lleol** gan Lywodraeth Cymru i ganfod gwybodaeth am ofal plant yn eich ardal chi.

I ganfod gwybodaeth gyffredinol am ofal plant yng Ngwynedd **dilynwch y ddolen hon i wefan Cyngor Gwynedd**. Yno gallwch ganfod manylion ynghylch:

- **Canllaw Dewis Gofal Plant** er mwyn eich helpu i benderfynu pa fath o ofal sydd orau i'ch plentyn chi
- **Clybiau Brecwast** a Chlybiau ar ôl Ysgol

## Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Gwynedd

Mae gwefan **Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Gwynedd** yn adnodd hynod ddefnyddiol i ganfod pob math o wybodaeth ynghylch gwasanaethau a'r hyn sydd ar gael yn yr ardal gan gynnwys manylion:

- Gwarchodwyr plant
- Meithrinfeydd
- Clybiau ar ôl ysgol
- Clybiau Gwyliau
- Clybiau Brecwast
- Grwpiau chwarae
- Gweithgareddau i blant a phobl ifanc
- Gweithgareddau sy'n cefnogi plant gydag anableddau

Mae modd gweld a thanysgrifio i newyddlen Gwybodaeth i Deuluoedd Gwynedd **drwy ddilyn y ddolen hon**.

## Canolfannau Iaith

Mae gan Wynedd ganolfannau trochi iaith ar gyfer plant sy'n symud i'r ardal sydd eisiau derbyn addysg Gymraeg ond nad ydynt yn rhugl yn yr iaith. Mae pum canolfan iaith o'r math hwn yng Ngwynedd. Mae pedair canolfan ar gyfer plant oedran cynradd yng Nghaernarfon, Penrhyndeudraeth, Llangybi a Dolgellau ac un ar gyfer oedran uwchradd ym Mhorthmadog. Gallwch ddysgu mwy drwy ymweld â gwefan **Canolfannau Iaith Gwynedd**.




## Tu allan i'r ysgol

Mae llu o weithgareddau a digwyddiadau yn cael eu trefnu i blant a phobl ifanc yng Ngwynedd. Mae'r **Mentrau Iaith**, **yr Urdd** a'r **Clybiau Ffermwyr Ifanc** yn cynnig ystod eang o brofiadau i blant gael cymdeithasu a chwrdd â ffrindiau newydd drwy gyfrwng y Gymraeg.

- **Menter Iaith Gwynedd:** Mae Menter Iaith Gwynedd wedi ei rhannu'n dri dalgylch sef Pen Llŷn, Bangor, a'r Bala a Phenllyn. Dysgwch fwy **drwy ymweld â'r wefan**.
- **Yr Urdd:** Mae Gwynedd yn cynnwys dau ranbarth yr Urdd, sef **Eryri** a **Meirionydd**. I ganfod pa weithgareddau sydd ar y gweill yn eich ardal chi, **dilynwch y ddolen hon**.
- **Clybiau Ffermwyr Ifanc:** Fel yr Urdd, mae'r Clybiau Ffermwyr Ifanc Gwynedd wedi eu rhannu mewn i ddau ranbarth sef **Eryri** a **Meirionydd**.
- **Clybiau drama a cherdd:** Mae amrywiaeth o glybiau drama a cherdd i bobl ifanc eu mwynhau yng Ngwynedd gan gynnwys **Theatr Frân Wen**, **Theatr Torch Galeri**, **Blas Pontio** ac Ysgol Glanaethwy.

### Clybiau rhiant a babi

- **Sensori Sara**
- **Babis Del**
- **Gwdi-hŵ**

# IECHYD A GOFAL

Fel y nodwyd yn **Adran 2**, y ffordd orau o ddod o hyd i wybodaeth am y ddarpariaeth iechyd yn eich ardal yw drwy dudalen '**Gwasanaethau yn agos atoch chi**' GIG Cymru. Mae hwn yn fan cychwyn gwych wrth fynd ati i asesu'r gwasanaethau sydd ar gael yng Ngwynedd a thu hwnt.

Mae **adran Iechyd a gofal cymdeithasol** gwefan Cyngor Gwynedd hefyd yn adnodd da iawn ar gyfer gwybodaeth. Yno gallwch ganfod gwybodaeth ynghylch:

- Iechyd meddwl
- Gofalwyr di-dâl
- Anableddau
- Cymorth costau byw

Ynghyd â nifer o bynciau eraill.

## Byw'n Iach

**Byw'n Iach** yw'r darparwyr cyfleusterau ffitrwydd, chwaraeon a nofio ar draws Gwynedd. Maent yn rhedeg nifer o ganolfannau hamdden a phyllau nofio, ac yn trefnu dosbarthiadau a gweithgareddau ffitrwydd a chadw'n iach wedi'u teilwra i bob oedran drwy gydol y flwyddyn. Am fwy o wybodaeth am y canolfannau unigol, dilynwch y dolenni isod:

- Arfon, Caernarfon
- Bangor
- Bro Dysynni
- Bro Ffestiniog
- Dwyfor
- Glan Wnion
- Glaslyn
- Pafiliwn
- Penllyn
- Plas Ffrancon
- Plas Silyn



### Clybiau chwaraeon

- Clwb Beicio Egni Eryri
- Clwb Canŵio Bala
- Clwb Antur Dyffryn Peris

# DIGWYDDIADAU CYMDEITHASOL A'R IAITH GYMRAEG

Mae Gwynedd yn ardal ag iddi fywyd cymdeithasol bywiog, diwylliant ffyniannus gyda'r Gymraeg yn rhan bwysig ohoni a digon o weithgareddau o bob math i ddiddanu pobl o bob oedran.

Mae **adran hamdden Cyngor Gwynedd** yn lle da i ddechrau edrych am bethau i wneud a gweld, gyda gwybodaeth am barciau, llwybrau, digwyddiadau, sinemâu a theatrau, amgueddfeydd a chanolfannau celfyddydol a rhandiroedd.

## Cyffredinol

- Gwefan Gwynedd Creadigol
- Gwasanaeth Cerdd Ysgolion Gwynedd a Môn

## Celfyddydau

- Pontio
- Neuadd Dwyfor
- Galeri Caernarfon
- Neuadd Ogwen
- Plas Glyn-y-Weddw

## Clybiau Chwaraeon

I ganfod pa glybiau ac adnoddau chwaraeon sydd ar gael yn yr ardal, dilynwch y dolenni isod i ffeindio rhestr gyflawn:

- Clybiau Rygbi
- Clybiau Pêl-droed
- Clybiau Hoci
- Clybiau Pêl-rwyd
- Cyrsiau Golff

## Atyniadau a Gweithgareddau

- Zip World Chwarel Penrhyn
- Bounce Below
- Parc Cenedlaethol Eryri
- Amgueddfa Lechi
- Digwyddiadau 'Visit Snowdonia'

## Mentrau Cymunedol

- Plas Carmel
- Partneriaeth Ogwen
- Menter Y Plu
- Yr Heliwr
- Tafarn y Fic

Am restr llawn o'r holl fentrau cymunedol sy'n rhan o rwydwaith Cymunedoli, **dilynwch y ddolen hon**.

# ADRAN 6: YNYS MÔN



**Os ydych yn dychwelyd i Ynys Môn neu'n symud yno am y tro cyntaf, mae'n werth ymgyfarwyddo â gwefan Cyngor Sir Ynys Môn er mwyn dod i ddeall yr holl wasanaethau a chymorth mae'r Cyngor yn eu darparu.**



# TAI

Dros y degawdau diwethaf mae rhai ardaloedd o Ynys Môn wedi gweld cynnydd yn y niferoedd o ail gartrefi a chynnydd sylweddol mewn prisiau tai mewn rhai mannau. Mae hyn wedi arwain at brinder tai mewn rhai ardaloedd a chymunedau gyda phobl lleol yn ei chael hi'n anodd ffeindio cartref sy'n ateb eu gofynion.

Yn ôl **Mynegai Prisiau Tai Principality**, y prisiau tai cyfartalog yn ôl mathau o eiddo ar Ynys Môn yw:

- **£356,030** am dŷ ar wahân
- **£252,222** am dŷ pâr
- **£164,143** am dŷ teras
- **£234,225** am fflat

## Ail gartrefi a chartrefi gwag hir dymor

Ym mis Ebrill 2023, **cynyddodd Llywodraeth Cymru'r premiwm uchaf posib** y gall awdurdodau lleol ei godi ar ail gartrefi i 300%. Mae hyn yn golygu bod gan gynghorau sir y grym i godi tair gwaith yr hyn y mae perchnogion ail gartrefi yn talu mewn treth cyngor na phe baent yn byw yno'n barhaol. Cyn y cam hwn yr uchafswm posib roedd awdurdodau lleol yn gallu ei godi oedd premiwm o 100%.

Ar hyn o bryd mae Cyngor Ynys Môn yn codi premiwm o 100% ar dreth cyngor tai gwag hir dymor. Ers y 1af o Ebrill 2024 mae'r Cyngor yn codi premiwm o 100% ar dreth cyngor ail gartrefi.

Mae'r polisi wedi cynhyrchu cyllid i'r Cyngor ail fuddsoddi mewn tai lleol yn barod. Yn ôl ystadegau Cyngor Sir Ynys Môn yn y flwyddyn 2022 i 2023 casglwyd £696,000 drwy bremiymau Treth Cyngor a gafodd ei neilltuo ar gyfer cynlluniau tai. Fe wnaeth hyn arwain at 28 o aelwydydd yn derbyn grant i brynu eu cartref cyntaf a helpu ariannu swydd swyddog tai gwag.

Mae mwy o wybodaeth ynghylch polisïau ail gartrefi a chartrefi gwag hir dymor Cyngor Sir Ynys Môn **i'w chanfod yma**.

# CYMORTH

Mae amrywiaeth o fentrau a chynlluniau ar y gweill ar Ynys Môn i ehangu'r ddarpariaeth tai yno. Mae'r rhain yn cael eu harwain yn bennaf gan Gyngor Sir Ynys Môn ar y cyd ag asiantaethau tai o'r ardal. Mae nifer o'r cynlluniau hyn wedi eu targedu yn benodol at sicrhau tai fforddiadwy digonol i bobl leol. Os ydych yn symud yn ôl i'r ardal neu'n symud yno am y tro cyntaf, gall eich cymhwysedd ar gyfer y cynlluniau hyn amrywio a bod yn ddibynnol ar eich cysylltiadau blaenorol â'r ardal. Mae'n werth astudio'r cynigion sydd ar gael er mwyn gweld os ydych yn cymhwyso ar gyfer y gwahanol gynlluniau a pha un sy'n gweithio orau i chi.

## Cynllun Prynu Cartref Ynys Môn

Mae Cymorth i Brynu yn bolisi cenedlaethol yng Nghymru wedi'i ariannu ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a chynghorau sir. Ar Ynys Môn fe adnabyddir y cynllun fel 'Cynllun Prynu Cartref Ynys Môn' ac fe'i gweinyddir gan Tai Teg. Amcan Prynu Cartref Ynys Môn yw cefnogi unigolion a theuluoedd i berchnogi eu tai eu hunain drwy gynllun rhannu ecwiti gyda'r Cyngor. Mae'r Cyngor yn darparu amrywiaeth o fenthyciadau a rhaglenni rhannu ecwiti i bobl, sy'n amrywio yn ôl anghenion a chyllid gwahanol unigolion. Nod y cynllun yw cynorthwyo pobl sydd â chynilon cyfyngedig i brynu tŷ y bydd y Cyngor yn eiddo ar gyfran ohono hyd nes bod y ddyled i'r Cyngor yn cael ei had-dalu.

Uchafswm y cymorth ariannol a ddarperir gan Gyngor Sir Ynys Môn yw 30% o werth yr eiddo cymwys. Mae hyn wedi'i gyfyngu i uchafswm o £75,000 oni bai y cytunir fel arall. Uchafswm pris prynu'r eiddo fydd £250,000. I ganfod mwy o wybodaeth ynghylch y cynllun ac i wirio os ydych yn gymwys ar ei gyfer, **dilynwch y ddolen hon i wefan Tai Teg**.

I ddysgu mwy am gynlluniau tai Cyngor Ynys Môn ewch **i dudalen gwe adran tai y Cyngor**. I ddysgu mwy am bolisïau tai y Cyngor, **dilynwch y ddolen hon**.

## Gwerthwyr tai yn Ynys Môn:

- Williams a Goodwin
- Beresford Adams
- Morgan Evans
- Môn Properties



# SWYDDI A CHYFLEOEDD GWAITH

Mae amrywiaeth helaeth o swyddi mewn nifer fawr o sectorau ar Ynys Môn ac mae'n lle gwych i ddechrau a datblygu gyrfa neu sefydlu a thyfu busnes. Yn yr adran hon ceir gwybodaeth am swyddi yn yr ardal a dolenni defnyddiol i chi ddechrau edrych am swydd.

## Adran Swyddi a Gyrfaoedd Cyngor Sir Ynys Môn

Mae adran swyddi a gyrfaoedd y Cyngor yn lle da i ddechrau wrth edrych am waith a chymorth i hyfforddi a ffeindio gwaith.

Yno gallwch ganfod:

- Swyddi gwag presennol y Cyngor
- Buddion gweithio i'r Cyngor
- Sut i gofrestru ar gyfer cyfleoedd swyddi
- Darpariaeth hyfforddiant a datblygu'r Cyngor

## Hwb Menter

Mae'r Hwb Menter yn brosiect sy'n cael ei redeg gan Menter Môn er mwyn helpu unigolion i ddechrau busnes yn ardaloedd Gwynedd ac Ynys Môn. Cartref y prosiect yw M-Sparc yng Ngaerwen a Hwb Arloesi Porthmadog. Maent yn gallu darparu gofodau gweithio a chefnogaeth i unrhyw fusnes mewn unrhyw sector. I ddysgu mwy **ewch i wefan Hwb Menter**.

## Môn CF

Mae **Môn CF** yn elusen ac yn gwmni sy'n eiddo i bobl Ynys Môn. Fe'i sefydlwyd yn y lle cyntaf i wasanaethu ardaloedd difreintiedig yr Ynys, ond bellach mae'n helpu pobl ar draws yr Ynys i ganfod hyfforddiant galwedigaethol a gwaith. Maent yn helpu i wella cyflogadwyedd, cymorth wrth sefydlu busnesau ac yn darparu hyfforddiant i unigolion a gweithluoedd Ynys Môn. I ddysgu mwy am yr hyn maent yn ei ddarparu a'r cyfleoedd sydd ar gael, **ewch i'w hadran cymorth cyflogaeth**.



### Rhai o gyflogwyr Ynys Môn

- Jones Bros
- Menter Môn
- M-Sparc
- Magnox
- Babcock
- Stena
- Sw Môr Môn
- Halen Môn

# ADDYSG A GOFAL PLANT

## Addysg

Fel y nodwyd yn **Adran 2** mae modd canfod ysgolion lleol i'r ardal yr ydych yn bwriadu symud iddi drwy ddilyn **y ddolen hon i wefan 'Fy Ysgol Leol' Llywodraeth Cymru**. Gallwch hefyd ddefnyddio'r wefan i ganfod manylion cyswllt ysgolion unigol ynghyd ag adroddiadau Estyn.

Mae modd canfod gwybodaeth ynghylch ysgolion a dysgu ar Ynys Môn drwy ymweld â **gwefan Cyngor Sir Ynys Môn**. Yno gallwch ganfod manylion ynghylch:

- **Addysg feithrin a cyn ysgol**
- **Rhestr ysgolion**
- **Mynediad i ysgolion**
- **Gwybodaeth dalgylch**
- **Cymorth ariannol**
- **Teithio i'r ysgol**
- **Prydau ysgol gan gynnwys prydau ysgol am ddim a chynllun brecwast am ddim**
- **Dyddiadau tymor a gwyliau**
- **Gwasanaeth Cwnsela Ysgolion Uwchradd Gwynedd ac Ynys Môn**
- **Gwasanaethau anghenion dysgu ychwanegol**

## Gofal plant

Mae'r ddarpariaeth gofal plant sydd ar gael i chi yn amrywio o ardal i ardal. Ffordd dda o ddarganfod pa wasanaethau sydd ar gael i chi yw defnyddio'r **Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd lleol** gan Lywodraeth Cymru i ganfod gwybodaeth am ofal plant yn eich ardal chi.

I ganfod gwybodaeth am ofal plant **dilynwch y ddolen hon i wefan Cyngor Sir Ynys Môn**. Yno gallwch ganfod manylion ynghylch:

- **Gwasanaeth Ieuenctid Ynys Môn:** Mae 14 o glybiau ieuenctid ar draws Ynys Môn i bobl ifanc rhwng 11 ac 16 oed gymdeithasu.
- **Gofal plant**
- **Teulu Môn:** Pwynt cyswllt cyntaf Cyngor Sir Ynys Môn ar gyfer gwasanaethau gofal cymdeithasol.
- **Cefnogaeth i rieni**
- **Help i blant ag anableddau**

## Canolfannau Iaith

Mae gan Ynys Môn ganolfannau trochi iaith ar gyfer plant sy'n symud i'r ardal sydd eisiau derbyn addysg Gymraeg ond nad ydynt yn rhugl yn yr iaith. Mae dwy ganolfan iaith o'r math hwn ym Môn, **Canolfan Iaith Moelfre** ar safle Ysgol Gymunedol Moelfre a **Chanolfan Iaith Cybi** ar safle Ysgol Cybi. Mae'r ddau safle'n darparu ar gyfer plant rhwng 7 a 11 mlwydd oed. Gallwch ddysgu mwy drwy ymweld â **gwefan Canolfannau Iaith Môn**.

## Tu allan i'r ysgol

Mae llu o weithgareddau a digwyddiadau yn cael eu trefnu i blant a phobl ifanc ym Môn. Mae **tudalen Chwarae Cyngor Sir Ynys Môn** yn gyflwyniad da i'r holl weithgareddau sydd ar gael i blant yn y sir.

Mae'r **Mentrau Iaith**, **yr Urdd** a'r **Clybiau Ffermwyr Ifanc** yn cynnig ystod eang o brofiadau i blant gael cymdeithasu a chwrdd â ffrindiau newydd drwy gyfrwng y Gymraeg.

- **Menter Iaith Môn:** Darparu trawstoriad o weithgareddau sy'n cefnogi ymdrechion i gynnal y Gymraeg yn lleol.
- **Yr Urdd:** Mae gan yr Urdd dros 3000 o aelodau ar Ynys Môn, ac yn cynnig rhaglen o weithgareddau amrywiol i blant a phobl ifanc o bob oedran.
- **Clybiau Ffermwyr Ifanc:** Mae 6 clwb Ffermwyr Ifanc yn Ynys Môn sef Bodedern, Dwyran, Llangefni, Llangoed, Penmynydd, Rhosybol. Gallwch ddysgu mwy am yr hyn sydd ganddynt ar y gweill drwy ymweld â'r **grŵp Facebook**.
- **Clybiau drama a cherdd:** Mae amrywiaeth o glybiau drama a cherdd i bobl ifanc eu mwynhau ar Ynys Môn gan gynnwys **Theatr Ieuenctid Môn** a **Gwneud.Make.Do** sef clwb comedi i bobl ifanc.
- **Clwb Sparci, M-Sparc:** Clybiau dysgu STEM i blant a phobl ifanc sy'n cynnal sesiynau ar amrywiaeth eang o bynciau diddorol. I ganfod digwyddiadau Clwb Sparci, **dilynwch y ddolen hon**.



# IECHYD A GOFAL

Fel y nodwyd yn **Adran 2**, y ffordd orau o ddod o hyd i wybodaeth am y ddarpariaeth iechyd yn eich ardal yw drwy dudalen '**Gwasanaethau yn agos atoch chi**' GIG Cymru. Mae hwn yn fan cychwyn gwych wrth fynd ati i asesu'r gwasanaethau sydd ar gael yn Ynys Môn a thu hwnt.

## Gofal cymdeithasol

Mae **adran gofal cymdeithasol a lles gwefan Cyngor Sir Ynys Môn** yn adnodd da iawn ar gyfer gwybodaeth ynghylch gwasanaethau. Yno gallwch ganfod gwybodaeth ynghylch holl wasanaethau gofal a lles y Cyngor gan gynnwys:

- **Gofal Cymdeithasol Oedolion**
- **Gofalwyr**
- **Iechyd Meddwl**

## Teulu Môn

**Teulu Môn** yw pwynt cyswllt cyntaf Cyngor Sir Ynys Môn ar gyfer gwasanaethau gofal cymdeithasol. Mae Teulu Môn yn cynnig gwybodaeth ynghylch ystod eang o faterion gan gynnwys gwasanaethau arbenigol plant, iechyd galwedigaethol, a gofal.

## Prosiect Adferiad

Mae Prosiect Adferiad yn brosiect cwnsela sy'n cael ei ddarparu gan Teulu Môn i deuluoedd sy'n profi problemau bach i ganolig gyda'u hiechyd meddwl. **Dysgwch fwy yma**.

## Cadw'n iach

Mae **adran Hamdden, Chwaraeon ac Iechyd gwefan Cyngor Sir Ynys Môn** yn rhoi trosolwg da o'r gwasanaethau a chyfleusterau iechyd a hamdden sydd ar gael ym Môn gan gynnwys canolfannau hamdden a chyfleusterau cymunedol.

## Môn Actif

Môn Actif yw'r enw ar frand y Cyngor ar gyfer gweithgareddau hamdden, ac fe allwch ddysgu mwy **drwy fynd i'r dudalen Facebook** lle gallwch ddilyn y newyddion diweddaraf. Gallwch hefyd archebu dosbarthiadau ffitrwydd a nofio drwy **borth Môn Actif**.

Mae'r Cyngor wedi creu map rhyngweithiol o'r holl gyfleusterau cymunedol maent yn eu darparu, ac fe allwch edrych i weld pa wasanaethau sydd ar gael ym mhle drwy ddilyn y ddolen hon i weld eu **cyfeirlyfr adeiladau cymunedol**.

### Canolfannau Hamdden

**Canolfannau Hamdden**: Mae'r Cyngor yn rhedeg 4 canolfan hamdden ar Ynys Môn:

- **Canolfan Hamdden Plas Arthur**
- **Canolfan Hamdden Caergybi**
- **Canolfan Hamdden Amlwch**
- **Canolfan Hamdden David Hughes**

### Cadw'n heini

Dyma restr o gampfeydd eraill a chlybiau cadw'n heini lleol.

- **Barn Fit, Bryngwran**
- **Ffitrwydd Môn, Llangefni**
- **Canolfan Beaumaris, Biwmares**
- **Môn Girls Run** (Tudalen Instagram)

# DIGWYDDIADAU CYMDEITHASOL A'R IAITH GYMRAEG

Mae Ynys Môn yn ardal ag iddi fywyd cymdeithasol bywiog, diwylliant ffyniannus gyda'r Gymraeg yn rhan bwysig ohoni, a digon o weithgareddau o bob math i ddiddanu pobl o bob oedran.

Mae **gwefan Croeso Môn** yn lle da i ddechrau edrych am bethau i wneud a gweld, gyda gwybodaeth am bob math o weithgareddau a digwyddiadau gan gynnwys teithiau cerdded a beicio, cyfleoedd chwaraeon a hamdden, a pha draethau sydd orau ar gyfer crwydro a nofio.

Dyma restr o ddolenni o atyniadau a gweithgareddau ar Ynys Môn i chi fwrw golwg arni:

## Cyffredinol

- Llyfrgelloedd Môn
- Archifau Môn
- Cyfeirlyfr adeiladau cymunedol
- Bragdy Cybi

## Celfyddydau

- Theatr Fach Llangefni
- Canolfan Ucheldre
- Oriel Môn
- Fforwm Gelf Ynys Môn
- Oriel Ger-Y-Fenai

## Clybiau Chwaraeon

I ganfod pa glybiau ac adnoddau chwaraeon sydd ar gael yn yr ardal, dilynwch y dolenni isod i ffeindio rhestr gyflawn:

- Clybiau Rygbi
- Clybiau Pêl-droed
- Clybiau Hoci
- Clybiau Pêl-rwyd
- Cyrsiau Golff

## Atyniadau a Gweithgareddau

- Sŵ Mor
- Melin Llynon
- Pili Palas
- Bryn Celli Ddu
- Fferm y Foel

## Mentrau Cymunedol

- Tafarn yr Iorwerth, Bryngwran



llwyddonlleol2050.cymru

LLWYDDO'N LLEOL 2050

ARFOR

CREU GWAITH – CEFNOGI'R IAITH

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government